# Annibyniaeth




## Cyfeirlyfr y Gymru Rydd

# yn dy boced

Argraffiad cyntaf: Mehefin 2017
Ail argraffiad: Gorffennaf 2017
Trydydd argraffiad: Mai 2019
Pedwerydd argraffiad: Mai 2020
Pumed argraffiad: Ionawr 2021
Chweched argraffiad: Mai 2025

© YesCymru 2025
Cedwir pob hawl

ISBN: 978-1-7385604-7-9

Cyhoeddwyd gan YesCymru
Swyddfa 23609, Blwch Post 92, Caerdydd, CF11 1NB
post@yes.cymru
Argraffwyd gan Y Lolfa Cyf.
www.ylolfa.com

# ANNIBYNIAETH YN DY BOCED

Yes cymru

*Diolch i'r aelodau a'r cefnogwyr sydd wedi cyfrannu at greu a golygu'r llyfryn hwn ac i bawb sydd wedi helpu gyda'r gwaith cyfieithu. Diolch yn arbennig i Owen Donovan (stateofwales.com) am ei ymchwil manwl ac i Y Lolfa am eu cefnogaeth amhrisiadwy.*

*Dydyn ni ddim yn honni bod yr holl atebion gynnon ni, ond mae'r llyfryn hwn yn cynnig sail gychwynnol bwysig a chadarnhaol ar gyfer trafodaeth. Ein gobaith yw y bydd YesCymru yn gallu creu newid sylfaenol yn holl naws a chynnwys y drafodaeth am annibyniaeth.*

*Dyma'r chweched argraffiad o Annibyniaeth yn Dy Boced. Bydd fersiynau newydd yn dilyn wrth i'r drafodaeth esblygu. Bydd fersiwn ddiweddaraf y llyfryn hwn ar gael yn cy.yes.cymru/annibyniaeth.*

# Penodau:


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 9 |
| Pam Annibyniaeth? | 14 |
| Pam Nad yw Cymru Eisoes yn Annibynnol? | 21 |
| Pam Nad yw Datganoli'n Ddigon a Pha Wahaniaeth Fyddai Annibyniaeth yn ei Wneud? | 24 |
| Gwneud Cymru'n Gyfoethocach | 29 |
| Gall Cymru Fforddio Bod yn Annibynnol? | 38 |
| Y Bunt, yr Ewro neu Bunt Cymru? | 48 |
| Beth am y Frenhiniaeth? | 54 |
| Cymru, y Byd, a Brexit | 57 |
| Amddiffyn | 64 |
| Mewnfudo a Chenedligrwydd | 72 |
| Ond Beth Am...? | 76 |
| Y Llwybr tuag at Annibyniaeth | 95 |
| Cyfansoddiad i Gymru | 100 |
| Sut gallaf wneud i Annibyniaeth Ddigwydd? | 106 |

# Cyflwyniad

Mae angen gwirioneddol am y llyfryn hwn. Pleidleisiodd y Deyrnas Gyfunol i adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016. Mae polau'n parhau i ddangos cefnogaeth gref i annibyniaeth yn yr Alban ddeng mlynedd ar ôl eu refferendwm ar y mater, ynghyd â thwf yn y gefnogaeth i annibyniaeth i Gymru. Mae trafodaethau ynglŷn ag ailuno Iwerddon mewn modd heddychlon yn codi stêm hefyd. Mae'r Deyrnas Gyfunol yn newid yn gyflym ac mae'n hollbwysig na chaiff Cymru ei gadael ar ôl.

Yn y tudalennau canlynol, bydd *YesCymru* yn ystyried cwestiynau allweddol ynglŷn ag annibyniaeth: Sut gall cenedl fach fel Cymru lwyddo yn ein byd heddiw? Pa adnoddau sydd gennym? Sut gallai annibyniaeth newid ffurf ein cymdeithas a'n heconomi? A beth fyddai ein lle yn y gymuned fyd-eang?

Bydd cefnogwyr annibyniaeth i Gymru yn gyfarwydd iawn â chlywed y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn gan y rhai sy’n amheus ynglŷn ag annibyniaeth yn ogystal â phobl sy’n agored eu meddwl ond yn ansicr. Mae’r llyfryn hwn yn trin cwestiynau o’r fath fel gwahoddiadau i gynnal dadleuon rhesymegol. Rydym yn gobeithio y bydd yn helpu i ateb rhai o’r cwestiynau mawr hyn, gan roi’r wybodaeth i’r darllenwyr i’w galluogi i herio dadleuon gwan, di-fflach gan y rhai sy’n amddiffyn y status quo – a rhoi’r hyder i ni osod yr agenda ar gyfer annibyniaeth i Gymru.

Mae gwladgarwch at Gymru wedi’i wreiddio yn ddwfn yn ein pobl. Mae hyn i’w weld yn amlwg ym mhob gêm rygbi neu bêl-droed ryngwladol ble mae’r gwladgarwch yn llawn angerdd ac yn amrywiol a chynhwysol. Ond nid rhywbeth ar gyfer diwrnod gêm yn unig ydy Cymreictod; mae’n rhan o’n bywydau bob dydd, yn ein cymunedau, ein gweithleoedd, ac yn ein teuluoedd.

Rydyn ni’n gwybod hefyd nad ydy Cymreictod balch yn golygu cefnogi annibyniaeth i bob person.

Nid llyfryn i gefnogwyr pybyr yn unig ydy hwn – mae o werth hefyd i'r rhai sydd heb benderfynu. Pobl all fod yn gefnogol yn eu calonnau, ond nid yn eu pennau hyd yma. Y bobl hynny sy'n chwilfrydig ynglŷn ag annibyniaeth (neu'n "indy-curious").

Cychwynnodd *YesCymru* yn 2014 fel grŵp bach oedd yn cefnogi ymgyrch annibyniaeth yr Alban. Ers ei lansio'n swyddogol yn 2016, mae'r syniad o annibyniaeth i Gymru wedi symud o'r ymylon i fod yn gwbl ganolog. Ym mis Tachwedd 2024, roedd 37% o'r bobl mewn pôl piniwn yn cefnogi annibyniaeth i Gymru[1] – ffigwr a oedd y tu hwnt i'r dychymyg ar un adeg.

Mae *YesCymru* yn credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol. Mae pawb sy'n gwneud eu cartref yng Nghymru – beth bynnag fo'u hoedran, anabledd,

[1] Pôl Survation a gynhaliwyd gan Arron Banks (cyhoeddwyd 8 Tachwedd 2024). Ddim yn gwybod a heb benderfynu wedi'u dileu. Mae'r tablau llawn ar gael yn https://cdn.survation.com/wp-content/uploads/2024/11/08145423/Wales_Tables.xlsx

hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, beichiogrwydd, hil, crefydd, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol – yn ddinesydd llawn yng Nghymru annibynnol y dyfodol.

Mae’r byd yn dod yn fwyfwy ansicr, ac mae’r Deyrnas Gyfunol yn dal i ddelio â chanlyniadau Brexit. Felly, beth mae’r dyfodol yn ei gynnig i Gymru? Cael ei llyncu o fewn rhyw ‘undeb’ crebachlyd ac adweithiol, ynte sefyll ar ei thraed yn genedl annibynnol ymhlith y cenhedloedd?

Mae mwy a mwy o bobl yn gweld yr annhegwch sydd wedi’i wreiddio’n ddwfn yn y status quo – boed hynny i’w weld yn y biliynau o bunnoedd y mae Cymru wedi’u colli yn sgil HS2, neu’r modd y mae Ystad y Goron yn rheoli rhai o’n hadnoddau naturiol mwyaf gwerthfawr.

Mae sofraniaeth cenhedloedd yn un o gonglfeini’r gyfraith ryngwladol. Bwriad y llyfryn hwn yw gosod ein hachos o blaid ein gallu i lywodraethu ein materion ein hunain.

O ystyried y dirwedd wleidyddol sy’n newid yn gyflym, gofynnwn: Sut mae modd parhau i anwybyddu cwestiwn annibyniaeth i Gymru a pha ddadl sydd yn dal i sefyll dros gynnal y status quo?

# Pam Annibyniaeth?

Ein bwriad ydy seilio'r canllaw hwn ar 'siarad yn blaen' a ffeithiau. Mae'n rhoi'r wybodaeth fydd yn eich galluogi i deimlo'n fwy hyderus am Gymru annibynnol – ac i ddylanwadu ar bobl eraill.

Credwn mai dyma'r amser i gael dadl lawn ynglŷn ag annibyniaeth i Gymru. Pam?

**Pam Ddim?**

Bydd rhai pobl yn dweud bod Cymru yn 'rhy fach' i fod yn annibynnol. Ond mae rhai o wledydd mwyaf ffyniannus, cyfartal a hapus y byd yn wledydd bychain. Beth sy'n gwneud pobl Cymru yn wahanol i Slofaciaid, Daniaid neu Wyddelod? Mae'n sefyll i reswm y dylai pob penderfyniad sy'n effeithio ar Gymru gael ei wneud yng Nghymru – nid rhai ohonynt, ond pob un ohonynt. Nid yw Cymru yn berffaith. Mae digon o broblemau i fynd i'r afael â nhw. Oni fyddai'n haws delio â'r problemau hynny petai ein llywodraeth yn un sydd â'i holl sylw ar anghenion

Cymru? Ar hyn o bryd, mae San Steffan yn trin Cymru fel rhyw ran fach ddi-nod o'r Deyrnas Gyfunol ac yn gwneud penderfyniadau ar sail blaenoriaethau pobl eraill – fel y gwelon ni gyda Brexit, HS2 a'r ymateb i COVID-19. Os yw sefydliad wedi methu rhoi'r sylw dyledus i'ch anghenion chi dro ar ôl tro, y cam naturiol yw ffurfio'ch sefydliad eich hun a chydio yn eich tynged eich hun. Mae annibyniaeth yn gyfle i greu Cymru well.

**Mae Cymru'n Wahanol**

Mae rhai pobl yn gofyn: "Cymru? Rhan o Loegr yw honna, ynteu?" Mae gan Gymru lawer yn gyffredin â gwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Gyfunol, ond mae gennym hefyd ein gwleidyddiaeth, ein gwerthoedd, ein hanesion, a'n hiaith ein hunain. Mae'r rhain wedi'u ffurfio gan bobl o bob cefndir, gan gynnwys un o gymunedau amlddiwylliannol hynaf Prydain yn Butetown yng Nghaerdydd, disgynyddion ymfudwyr diwydiannol, a'r 'Cymry Newydd' o Ewrop a thu hwnt. Ond eto, caiff Cymru ei thrin fel un o ranbarthau Lloegr yn rhy aml o lawer. Nid creu

rhaniadau yw bwriad annibyniaeth; mae'n ymwneud â dathlu ein hunaniaeth unigryw ni a sicrhau ein lle yn aelod cydradd o'r gymuned fyd-eang.

## Cael y Llywodraeth y Byddwch yn Pleidleisio Drosti

Mae Aelodau Seneddol Cymru yn ffurfio 5% o Dŷ'r Cyffredin. Does dim gwahaniaeth sut bydd Cymru'n pleidleisio mewn etholiad cyffredinol, y llywodraeth y mae Lloegr ei heisiau a gawn yn San Steffan. Ers 1945, dim ond am ddwy flynedd y bu i ganlyniadau etholiadau yng Nghymru bennu pwy oedd llywodraeth y Deyrnas Gyfunol – rhwng 1964 a 1966.

Bychan yw llais Cymru yn San Steffan ac mae wedi crebachu ymhellach, gyda 32 yn unig o Aelodau Seneddol yn cael eu hethol yng Nghymru yn 2024, o gymharu â 40 cyn hynny.

Mae Senedd Cymru yn cael ei chyllido drwy Fformiwla Barnett, sy'n dyrannu arian i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, caiff y

cyllid hwn ei bennu gan Drysorlys y Deyrnas Gyfunol yn Llundain, ar sail anghenion a blaenoriaethau Lloegr. Undeb anghyfartal yw'r Deyrnas Gyfunol, ac felly y bydd hi byth. Rhaid i bobl Cymru gymryd rheolaeth dros eu dyfodol eu hunain.

**Dim Rhagor o Esgusodion o Fae Caerdydd**

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod ers datganoli, dim ond os bydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth lwyr dros bob maes polisi y gall gwir newid ddigwydd. Er enghraifft, sut gallwn ni integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn iawn tra bydd gwariant ar les a threthu yn parhau dan reolaeth San Steffan? Byddai Llywodraeth Cymru annibynnol – nid 'gweinyddiaeth ddatganoledig' – yn gallu bod yn llawer mwy uchelgeisiol. Byddai annibyniaeth yn rhoi'r galluoedd y mae eu hangen ar Gymru er mwyn ailadeiladu ei heconomi a'i chymdeithas, gan sicrhau hefyd bod ein gwleidyddion yn gwbl atebol i ni.

## Peidiwch â Meddwl am “Risgiau”; Meddyliwch am “Gyfleoedd”

Mae llawer o bobl yn dweud bod annibyniaeth yn syniad sy’n apelio, ond na fyddai Cymru byth yn gallu ei fforddio. A byddai, mi fyddai risgiau ynghlwm wrth ddod yn wlad annibynnol. Mae pobl yn cymryd risgiau er mwyn cael gwell dyfodol. Mae dadl annibyniaeth yn rhoi gormod o sylw i risg a dim digon o sylw i gyfleoedd. Mae mwy a mwy o bobl yn dod i sylweddoli hynny – ac mae’n eu grymuso nhw.

Mae gan Gymru gyfoeth o adnoddau a gallai arwain y ffordd wrth fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd. Ond allwn ni ddim manteisio’n llawn ar asedau fel ynni gwynt ar y môr oherwydd eu bod yn cael eu rheoli gan Ystad y Goron. Byddai annibyniaeth yn caniatáu i Gymru ddatblygu economi i adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, nid rhai Y Deyrnas Gyfunol.

Byddai hefyd yn rhoi'r pŵer i ni greu cymdeithas decach, gan fynd i'r afael â'r anghyfiawnder a wynebir gan bobl liw, y gymuned LHDTC+, pobl anabl, y 29% o blant Cymru yr amcangyfrifir eu bod yn byw mewn tlodi[2] a grwpiau eraill sydd wedi'u hesgeuluso a'u hymylu ers cymaint o amser.

Oes, mae'n rhaid i ni gydnabod y risgiau. Ond efallai mai'r risg fwyaf ydy gwneud dim byd.

**Dechrau Newydd**

Waeth pwy sydd mewn grym yn San Steffan, mae Cymru wastad yn cael ei gadael ar ei hôl hi. Mae ein heconomi yn methu ag ateb anghenion y mwyafrif, mae ein system addysg yn annigonol, ac mae atebolrwydd gwleidyddol yn wan. Mae llawer gormod o bobl ifanc yng Nghymru yn wynebu dyfodol heb wir obaith nac uchelgais.

---

[2] Welsh Government (21st March 2024). "Relative income poverty: April 2022 to March 2023".

Allwn ni ddim dibynnu ar San Steffan i ddatrys hyn. Mae’n bryd i Gymru gydio yn yr awenau a chreu gwell dyfodol. Fydd neb arall yn gwneud hynny droson ni. Dim ond ni all ysgrifennu’r bennod nesaf yn hanes Cymru.

# Pam Nad yw Cymru Eisoes yn Annibynnol?

Nid oes un ateb unigol i’r cwestiwn hwn – mae hanes, gwleidyddiaeth, ac economeg oll yn rhan o’r ateb.

Am ganrifoedd, roedd gan Gymru ei chyfreithiau a’i rheolwyr ei hunan, ond roedd rhaniadau mewnol a phwysau allanol yn golygu ei bod yn anodd iddi gynnal annibyniaeth. Yn wahanol i’r Alban, a gadwodd ei systemau cyfreithiol a rhai systemau gwleidyddol ar ôl Deddf Uno 1707, cafodd Cymru ei hamsugno’n raddol gan Loegr. Trwy’r Ddeddfau Cyfreithiau yng Nghymru (1535–1542), gorfodwyd cyfraith a gweinyddiaeth Lloegr ar Gymru, gan ei ddileu i bob pwrpas fel endid gwleidyddol ar wahân.[3]

[3] In modern English, the text of the 1535 Act includes the following: “Albeit the Dominion Principality and Country of Wales justly and righteously is and ever has been incorporated, annexed, united and subject to & under the Imperial Crown of this Realm (England), as a very limb and joined of the same…”

Eto i gyd, goroesodd hunaniaeth a diwylliant Cymreig. Cadwodd yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth a sefydliadau Cymreig y syniad o Gymru yn fyw – ond yn fwy na dim, cryfder a gwytnwch y bobl wnaeth sicrhau bod ein cenedl yn goroesi. Dros gyfnod, tyfodd cynrychiolaeth wleidyddol, gan arwain at ddatganoli yn 1999. Fodd bynnag, nid yw datganoli yn golygu annibyniaeth. Mae Cymru yn dal i fod heb reolaeth dros feysydd allweddol megis cyfiawnder, lles, ynni a pholisi tramor.

Mae dibyniaeth economaidd yn ffactor arall. Mae Cymru wedi'i hintegreiddio'n ddwfn yn economi'r Deyrnas Gyfunol, ond mae penderfyniadau ynglŷn â seilwaith, buddsoddi, a diwydiant wastad wedi rhoi blaenoriaeth i rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol, yn enwedig de-ddwyrain Lloegr. Mae hyn wedi arwain at danddatblygu economaidd a'r canfyddiad bod Cymru yn rhy fach neu'n rhy dlawd i fod yn annibynnol. Ond canlyniad i benderfyniadau a wnaed ymhell o Gymru ydy hynny, nid adlewyrchiad o'r bobl sy'n byw yma.

O graffu arnyn nhw, dydy’r amheuon hyn ddim yn dal dŵr. Mae llawer o genhedloedd bychain wedi ennill annibyniaeth ac wedi ffynnu. Erbyn hyn, nid gofyn a all Cymru fod yn annibynnol ydy’r cwestiwn iawn, ond a ddylai barhau yn y Deyrnas Gyfunol, o ystyried pa mor anghydradd yw’r system bresennol.

Neu mewn geiriau eraill: Petai Cymru eisoes yn annibynnol, a fydden ni’n pleidleisio i ymuno â’r Deyrnas Gyfunol?

# Pam Nad yw Datganoli'n Ddigon a Pha Wahaniaeth Fyddai Annibyniaeth yn ei Wneud?

Ers 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am feysydd polisi sy'n cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, datblygu economaidd, a'r Gymraeg. Felly pam mae angen annibyniaeth? Allwn ni ddim gweithio gyda'r gyfundrefn fel y mae hi?

Er bod datganoli yn gam ymlaen, mae diffygion sylfaenol yn y gyfundrefn bresennol. Mae gan Lywodraeth Cymru rai pwerau, ond mae'r rhain yn aml yn cael eu cyfyngu gan San Steffan. Er enghraifft, ers 2019, mae Cymru wedi gallu amrywio cyfraddau treth incwm ond nid yw'n gallu gosod bandiau treth incwm.

Yn wir, mae rhestr o 193 o feysydd lle nad yw'r Senedd yn gallu gwneud cyfreithiau neu benderfyniadau.[4] Mae hynny'n cynnwys pob math o bethau, o ddiogelwch cenedlaethol i feysydd annisgwyl, fel masnachu ar y Sul a hofrenfadau. Nid yw Cymru yn rheoli ei llysoedd ei hun, ei charchardai, na'i gwasanaethau prawf, ac nid yw'n rheoli ei chyflenwad dŵr ei hun hyd yn oed. Mae gan Faer Manceinion Fwyaf fwy o reolaeth dros blismona na Chymru.

**Llaw Llesg Datganoli**

Mae llawer yn dadlau bod rhagor o ddatganoli yn well dewis nag annibyniaeth lawn. Ond pan maen nhw'n cael y cyfle, mae llawer o Aelodau Seneddol Cymru yn pleidleisio yn erbyn datganoli rhagor o bwerau i'r Senedd – ac mae canlyniadau difrifol i hynny.

Mae'r diffyg pwerau dros seilwaith rheilffyrdd – a fyddai wedi gallu cael eu datganoli i Gymru yn 2005 – wedi costio oddeutu £4 biliwn o gyllid

[4] Government of Wales Act 2006, Schedule 7A.

ychwanegol fyddai wedi dod i Gymru drwy Fformiwla Barnett.[5] Mae hynny oherwydd bod HS2 wedi ei gategoreiddio yn brosiect "Lloegr a Chymru" gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol, er nad oes yr un fodfedd o'r trac yn dod yn agos at Gymru.

Mae penderfyniadau ynglŷn â chynhyrchu ynni yn cael eu gwneud yn San Steffan hefyd oherwydd nad ydy Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ymddiried yng Nghymru i wneud y penderfyniadau hynny. Ystad y Goron sy'n rheoli rhai o'r rhannau mwyaf gwerthfawr o dir ac arfordir Cymru a ddefnyddir ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy.

Rhaid i unrhyw brosiect ynni dros 350 MW gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Yn y cyfamser, rhoddodd y rownd ddiweddaraf o brydlesau ar gyfer ynni gwynt ar y môr hwb gwerth dros £650 miliwn i elw Ystad y Goron yn 2023-24.[6]

[5] Will Hayward, The Guardian (15th October 2024). "Call it the Great Welsh Train Robbery - a £4 billion scandal in plain sight".

[6] Stephen Clear, Bangor University (12th August 2024). "Crown Estate: Why it's time to devolve it and put Wales on a par with Scotland".

Mae penderfyniadau San Steffan yn effeithio arnom y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd yn fewnol yng Nghymru – maen nhw'n clymu Cymru at bolisïau tramor y gallen ni fod yn anghytuno â nhw. O'r rhyfel yn Irac yn 2003 i werthu arfau i lywodraethau sy'n cael eu cyhuddo o droseddau yn erbyn hawliau dynol, does gan Gymru ddim llais yn y dewisiadau hyn.

Mae darlledu hefyd yn cael ei reoli gan San Steffan. Yn 2019, lansiodd BBC Yr Alban ei sianel ei hun, ond cafodd Cymru y nesaf peth i ddim. Aelodau Seneddol o Loegr sy'n penderfynu ar dynged S4C ac yn cyfyngu ar gyllid ar gyfer rhaglenni Cymreig ar BBC Cymru.

## System Ddryslyd: Beth mae Datganoli *Wir* yn ei Olygu?

Mae datganoli yn cyfyngu ar bwerau Cymru, ond mae hefyd yn ddryslyd ac yn anghyson. Mae hyd yn oed arbenigwyr cyfreithiol yn cael trafferth egluro pwy sy'n gyfrifol am beth; felly sut mae disgwyl i bleidleiswyr cyffredin ddeall? Os nad ydy pobl yn gwybod pwy sy'n atebol, sut gallan nhw ddwyn gwleidyddion i gyfrif?

Senedd y Deyrnas Gyfunol sydd â'r pŵer yn y pen draw dros Gymru drwy sofraniaeth seneddol. Mae hynny'n golygu bod modd i bwerau sydd wedi'u caniatáu i Gymru gael eu tynnu'n ôl unrhyw bryd – oherwydd, fel y mae San Steffan yn gweld pethau, "mae pŵer sydd wedi'i ddatganoli yn bŵer sydd wedi'i gadw."

Er gwaethaf unrhyw fwriad cadarnhaol yn y broses ddatganoli, mae'r modd y mae wedi'i chynllunio'n golygu mai cyfyngedig yw'r rheolaeth sydd gan Gymru dros ei materion ei hun. Mae rhai yn dadlau y dylen ganolbwyntio ar wella datganoli – pwyso am ragor o bwerau a chyfyngu ar alluoedd San Steffan i rwystro penderfyniadau a wneir yng Nghymru.

**Ond ydy hynny'n ddigon?**

Byddai annibyniaeth yn rhoi llechen lân i Gymru – cyfle i greu democratiaeth sy'n eglur, yn dryloyw, ac yn atebol. Mae *YesCymru* yn credu mai'r ffordd orau ymlaen ydy i bob cymuned yng Nghymru uno a chymryd rheolaeth dros ein dyfodol.

# Gwneud Cymru'n Gyfoethocach

Un o'r rhesymau pennaf dros gael annibyniaeth yw'r gred y gall roi hwb i economi Cymru, ehangu'r sylfaen drethu, ac yn y pen draw, gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cael ein gorfodi i ddewis rhwng torri gwariant a chodi trethi.

Mae *YesCymru* yn credu y bydd annibyniaeth yn galluogi Cymru i ddatgloi ei photensial economaidd llawn, gan greu economi fwy bywiog, amrywiol a hyblyg fydd yn fwy parod ar gyfer yr heriau o'n blaenau.

Fydden ni ddim ar ein pennau ein hunain yn wynebu'r heriau hyn – a fydden ni ddim yn eu goresgyn ar ein pennau ein hunain chwaith.

**Rhy Fach; Rhy Dlawd**

Un ddadl gyffredin yn erbyn annibyniaeth ydy bod Cymru, â'i phoblogaeth o 3.16 miliwn,[7] yn "rhy fach" i fod yn annibynnol. Ond mae 18 o genhedloedd annibynnol o fewn Ewrop yn unig sydd â llai o boblogaeth. Ymhlith yr enghreifftiau, mae:

- Lithwania – 2.7 miliwn
- Slofenia – 2.1 miliwn
- Latfia – 1.8 miliwn
- Estonia – 1.3 miliwn
- Cyprus – 1.26 miliwn
- Lwcsembwrg – 672 mil
- Malta – 535 mil
- Gwlad yr Iâ – 375 mil

Beth sydd gan y cenhedloedd hyn yn gyffredin, a beth sy'n eu gwneud yn wahanol i Gymru? Nid eu maint, na gallu a doniau eu pobl, ond y ffaith eu

[7] Office of National Statistics (8th October 2024). "Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland (mid-2023)".

bod yn genhedloedd sofran sydd â rheolaeth lawn dros eu heconomïau.

O edrych yn nes adref, mae Gweriniaeth Iwerddon yn enghraifft drawiadol. Yn 2021, roedd Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Ngweriniaeth Iwerddon yn €81,573[8] – lawer gwell na Chymru ble roedd GYG y pen yn €29,884.[9]

Gall bod yn fach fod yn fantais hefyd. Yn eu traethawd *The Flotilla Effect*, nododd Adam Price a Ben Levinger nifer o fanteision economaidd sydd gan genhedloedd llai. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bod yn fwy agored i fasnach.
- Meithrin gwell cydlyniant cymdeithasol.
- Gwneud penderfyniadau democrataidd yn well.
- Mwy o hyblygrwydd wrth addasu i ergydion economaidd annisgwyl.

---

[8] Central Statistics Office, Ireland. "Gross Value Added per person at basic prices (euros), 2021".

[9] Office of National Statistics (26th April 2023). "Regional gross domestic product and gross value added: 1998 to 2021". The value of Welsh GVA-per-head was converted from pounds (£25,665) to the value of the euro as of June 30th 2021 to enable a better comparison.

Cafodd Iwerddon a Gwlad yr Iâ eu taro'n galed gan gwymp ariannol 2008, gyda'u heconomïau yn mynd ar i lawr yn ddifrifol. Serch hynny, ymhen ychydig flynyddoedd, roedd twf Iwerddon yn gynt na'r rhan fwyaf o Ewrop.[10] Er mai poblogaeth debyg i Gaerdydd sydd gan Wlad yr Iâ (383,536)[11] a bod ei diwydiant bancio wedi'i chwalu, roedd ei heconomi wedi ymadfer o fewn tair blynedd. Un o'r rhesymau dros lwyddiant Gwlad yr Iâ oedd ei hymateb penderfynol: yn wahanol i'r Deyrnas Gyfunol, cosbodd ei bancwyr di-hid, cyflwynodd ddiwygiadau ariannol sylweddol, a defnyddiodd ei harian cyfred ei hun i sefydlogi'r economi.[12]

Ers cwymp yr Undeb Sofietaidd, mae pob un o dair gwladwriaeth y Baltig wedi dangos eu gallu i fod yn sionc ac effeithiol, ac i edrych tuag allan wrth iddyn nhw i gymryd eu lle ar lwyfan y byd, ac maen nhw wedi perfformio'n well na sawl rhan o Orllewin Ewrop.

---

[10] Prof. John Fitzgerald, Economic & Social Research Institute (June 2014). "Ireland's Recovery from Crisis".
[11] StatsWales. "Population estimates by local authority and year (mid-2023)".
[12] Economic Online (October 14th 2024). "The Resilience of Iceland".

Ers iddi ennill ei hannibyniaeth yn 1991, mae Estonia wedi datblygu i fod yn un o brif genhedloedd y byd ym maes technoleg. Cafodd y llwyddiant hwn ei gyflawni drwy ddeddfau trethu mwy syml sy'n ei gwneud yn rhwyddach i gwmnïau gydymffurfio â'r rheoliadau, a strategaeth yn canolbwyntio ar arloesi digidol[13].

Sut olwg allai fod ar Gymru heddiw, pe baem ni wedi ennill ein hannibyniaeth ym 1990? Yn *The Flotilla Effect*, ystyriodd yr awduron y cwestiwn hwn yn fanwl a daethon nhw i'r casgliad y byddai economi Cymru 39% yn fwy nag ydyw heddiw petai hynny wedi digwydd.

## Rheolaeth Dros Ein Heconomi

Fyddai annibyniaeth ddim yn gwneud Cymru yn fwy cyfoethog ar unwaith, ond byddai'n ein harfogi â'r elfennau o reolaeth economaidd nad oes gennym ar hyn o bryd.

[13] Gerard O'Dwyer, Global Finance (March 5th 2024) "Estonia: Rebuilding the Economy".

Pwerau cyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cymru dros drethu a benthyca ar hyn o bryd. Mae'r pwerau sydd ganddi wedi eu cyfyngu er mwyn sicrhau na fydd Lloegr dan anfantais. Er enghraifft, mae Trysorlys y Deyrnas Gyfunol wedi rhwystro Cymru rhag gosod ei Threth Teithwyr Awyr ei hun oherwydd y gallai wneud Maes Awyr Caerdydd yn fwy cystadleuol na Maes Awyr Bryste.[14]

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn rhoi grant blynyddol i'r Senedd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau Cymru. Mae'r trefniant hwn yn golygu mai blaenoriaethau'r Deyrnas Gyfunol gyfan sy'n dylanwadu ar bolisi economaidd Cymru yn hytrach nag anghenion Cymru, ac rydym yn cael ein rhwystro rhag gweithio yn ôl cryfderau Cymru.

Byddai annibyniaeth yn newid hyn. Byddai Cymru yn sicrhau rheolaeth lawn dros:

[14] Welsh Government (19th November 2017). "Further calls for devolution of Air Passenger Duty to Wales".

- Trethu a chasglu trethi –gan atal pobl gyfoethog iawn rhag osgoi talu'u trethi tra bo pobl gyffredin yn talu eu cyfran nhw.
- Symleiddio'r cod treth – lleihau'r bylchau a'r mannau gwan y mae corfforaethau mawr yn manteisio arnynt.
- Rheoleiddio ei sector ariannol ei hun – gan sicrhau bod yr economi yn gweithio i bawb, nid yn unig y banciau a'r rhai sydd ar y brig.

O ran cyd-destun, mae gan god treth y Deyrnas Gyfunol 17,000 o dudalennau (a dim ond 6,100 o'r rhain sydd yn gyfreithiau gweithredol)[15]. I gymharu, mae cod treth Hong Kong yn llai na 300 tudalen, ac mae Norwy yn cyhoeddi pob ffurflen dreth er mwyn bod yn gwbl dryloyw. Nid yw'r un o'r newidiadau hyn yn bosib dan ddatganoli, ond byddai'r cyfan o fewn cyrraedd mewn Cymru annibynnol.

---

15 UK Government, Office of Tax Simplification (8th April 2012). "A 2012 analysis of tax legislation".

**Dysgu o Wlad yr Iâ**

Byddai Cymru annibynnol yn gallu aildrefnu ei system ariannol mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl gyffredin. Mae modd ei chynllunio er mwyn atal hapfuddsoddi di-hid a diogelu gweithwyr cyffredin rhag argyfwng ariannol arall.

Pan drawodd argyfwng banciau 2008, achubodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol y banciau, gan drosglwyddo'r baich i drethdalwyr. Ni chafodd unrhyw fancwyr eu dwyn i gyfrif am gamblo gydag arian pobl. Aeth Gwlad yr Iâ ati mewn ffordd wahanol. Carcharodd 36 o fancwyr[16] a chywirodd ddyledion morgeisi oedd wedi'u gorchwyddo. Erbyn 2018, roedd economi Gwlad yr Iâ wedi'i ymadfer yn llwyr.

**Datblygu Economi Gryfach**

Byddai annibyniaeth yn caniatáu i Gymru gymryd rheolaeth dros ei dyfodol economaidd ei hun. Mae hyn yn cynnwys:

---

[16] Valur, Grettison, Reykjavik Grapevine (7th February 2018). "36 bankers, 96 years in jail".

- Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith sylweddol, fel band eang a thrafnidiaeth.
- Datblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa eang, drwy gymryd rheolaeth dros Ystad y Goron.
- Denu diwydiannau technoleg newydd, gan wneud Cymru yn ganolbwynt ar gyfer arloesi.

Wrth gwrs, mae mwy nag arian ynghlwm ag annibyniaeth. Dylai economi gref adlewyrchu ein gwerthoedd fel cenedl – mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, a sicrhau ansawdd bywyd da i bawb yng Nghymru.

# Gall Cymru Fforddio Bod yn Annibynnol?

Efallai fod annibyniaeth yn ddeniadol fel syniad, ond a yw'n gallu gweithio'n ymarferol? Ydy Cymru o ddifri yn gallu sefyll ar ei thraed ei hun? Dadl gyffredin yn erbyn annibyniaeth ydy bod Cymru'n cynnal diffyg cyllidol, sy'n golygu bod mwy o arian cyhoeddus yn cael ei wario yng Nghymru nag sy'n cael ei gasglu mewn trethi. Yn 2020, amcangyfrifwyd bod y diffyg hwn yn £14.4 billion,[17] yn dilyn effeithiau pellach pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r diffyg cyllidol hwn yn anorfod nac yn anarferol chwaith.

**O Ble y Daw Diffyg Ariannol Cymru?**

Mae Cymru yn cynnal diffyg o'r fath ar hyn o bryd oherwydd y camreoli economaidd sy'n dod gyda

[17] Ifan, G, Siôn, C. and Wincott, D. (2022), 'Devolution, independence and Wales' fiscal deficit', National Institute Economic Review, 261, pp. 16–33.

bod yn rhan o’r Deyrnas Gyfunol. Nid yw’n dilyn yn anorfod bod rhaid i Gymru ddioddef diffyg o’r fath yn ei refeniw. Yn fwy na hynny, nid oes unrhyw rwystrau – boed hynny o safbwynt galluoedd, ein system addysg, neu ein lle yn y byd – a fyddai’n ein hatal rhag mynd i’r afael â’r mater hwn fel cenedl annibynnol.

O gael golwg ar y balans cyllidol dros yr 20 mlynedd diwethaf, gwelwn ei fod wedi codi a gostwng gryn dipyn, a’i fod ar ei isaf yn 1999/00 ac ar ei uchaf yn 2020/21 (oherwydd gwariant yn gysylltiedig â’r pandemig). Mae’r Deyrnas Gyfunol gyfan hefyd yn cynnal diffyg cyllidol, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd £127.5 biliwn yn 2024/25.[18] Pan oedd argyfwng COVID yn ei anterth, benthycodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol hyd at £313 biliwn mewn un flwyddyn.[19]

Nid yw cynnal diffyg cyllidol yn anarferol i wledydd annibynnol. Yn wir, dros y degawd

---

[18] Office of Budget Responsibility (5th November 2024). “A brief guide to the public finances”.
[19] House of Commons Library (12th September 2023). “Public spending during the Covid-19 pandemic” p20.

diwethaf, bu gan bron bob un o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (neu'r OECD) ddiffyg cyllidol a oedd, ar gyfartaledd, rhwng 3% ac 8%. Yn ôl data'r OECD,[20] 2001 oedd y tro diwethaf y cofnododd y Deyrnas Gyfunol warged yn y gyllideb, a dim ond mewn chwe blynedd y bu ganddi warged ers 1970.

Fel cenedl annibynnol, byddai gan Gymru y gallu i newid ffurf ei heconomi – yn hytrach na chael ei chaethiwo mewn system sy'n cymryd ein hadnoddau, yn ymelwa arnon ni ac yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau San Steffan yn hytrach na'n rhai ni.

## A fydd rhaid i Gymru Godi Trethi neu Dorri Gwasanaethau Cyhoeddus?

Mae gwrthwynebwyr datganoli yn dadlau, oni bai y gall Cymru gau'r bwlch rhwng gwariant ac incwm, y byddai annibyniaeth yn golygu naill ai cynnydd sylweddol mewn trethi neu doriadau i wasanaethau cyhoeddus.

---

[20] OECD, data indicators, "General Government Deficit". Available at https://www.oecd.org/en/data/indicators/

Awgrymodd adroddiad pwysig a gomisiynwyd yn 2022[21] y gallai gwir ddiffyg cyllidol Cymru fod cyn lleied â £2.6 biliwn. Byddai'r ffigur terfynol yn dibynnu ar nifer o ffactorau allweddol:

- Trafodaethau ynglŷn â phensiynau'r wladwriaeth a sut i rannu dyled bresennol y Deyrnas Gyfunol.
- Dewisiadau polisi y gallai Cymru annibynnol eu gwneud mewn meysydd amrywiol, fel gwariant ar amddiffyn.
- Addasu dulliau casglu trethi er mwyn sicrhau bod refeniw a gynhyrchir yng Nghymru yn aros yng Nghymru.

Enghraifft amlwg o'r modd y mae gwariant y Deyrnas Gyfunol yn camliwio sefyllfa gyllidol Cymru ydy HS2. Er nad oes yr un fodfedd o'r trac yn rhedeg trwy Gymru, cafodd HS2 ei gategoreiddio yn brosiect "Lloegr a Chymru". Mae hyn yn golygu bod biliynau o bunnoedd a ddylai

---

[21] Prof. John Doyle, Dublin City University (2022). "The Fiscal Deficit in Wales: Why it does not present an accurate picture of the opening public finances of an independent Wales".

fod wedi dod i Gymru wedi eu gwario mewn llefydd eraill, gan wneud ffigyrau'r diffyg cyllidol yn waeth.

Yn yr un modd, mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn dyrannu £2.7 biliwn y flwyddyn i Gymru ar gyfer gwariant amddiffyn[22] – ffigur y gellid ei gwtogi'n sylweddol mewn Cymru annibynnol (gweler yr adran ar Amddiffyn). Ymhlith yr elfennau gwariant eraill sy'n cyfrannu at ddiffyg honedig Cymru, mae:

- £13 biliwn i adnewyddu dau Dŷ Senedd y Deyrnas Gyfunol.[23]
- £10.5 biliwn a gollwyd yn sgil twyll yn ystod pandemig COVID.[24]
- £31 biliwn ar gyfer fflyd newydd o longau tanfor niwclear.[25]

---

[22] House of Commons Library (3rd May 2024). "UK defence spending", with Wales allocated 5% of the total figure based on population.
[23] House of Commons Library (26th January 2024). "Restoration & Renewal: Developing the strategic case"
[24] Hansard, UK Parliament (25th July 2024). "Covid-19 Pandemic: Cost to Public Purse of Public Procurement Fraud".
[25] House of Commons Library (22nd August 2024). "The cost of the UK's strategic nuclear deterrent" (p16-20).

Nid yw’r rhain yn gostau y byddai’n rhaid i Gymru annibynnol ymrwymo iddyn nhw.

**Gallwn ni Gredu'r Ffigyrau’r Diffyg?**

Mae’r Alban yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei sefyllfa ariannol (*Government Expenditure and Revenue in Scotland – GERS*). Fodd bynnag, mae economegwyr fel Jim a Margaret Cuthbert yn dadlau[26] nad yw’r adroddiadau hyn yn rhoi’r darlun llawn oherwydd nad ydynt yn cynnwys llif buddsoddiadau a symudiadau cyfalaf – data hollbwysig a gofnodir ar gyfer economi’r Deyrnas Gyfunol yn y *Pink Book* ond nad ydynt ar gael ar gyfer yr Alban na Chymru.

Mae cyfyngiadau sylweddol hefyd yn y ffordd y caiff data ariannol Cymru eu cofnodi. Mae llawer o’r ffigyrau yn seiliedig ar amcangyfrifon yn hytrach na gwir wariant oherwydd bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn gwrthod darparu dadansoddiadau manwl.

---

[26] Cuthbert, J; Cuthbert, M ; Ashcroft, B et al. (1998) “A critique of GERS: government expenditure and revenue in Scotland.”

Mae'r economegydd Richard Murphy wedi herio rhai o'r tybiaethau sylfaenol sy'n sail i'r ddadl.[27]

Er enghraifft, oherwydd bod Cymru a Lloegr yn perthyn i'r un awdurdodaeth gyfreithiol, mae llawer o gwmnïau sydd â swyddfeydd mewn nifer o leoliadau yn cofrestru yn Lloegr, sy'n golygu y gellir cofnodi refeniw trethi a gynhyrchir yng Nghymru fel incwm trethi yn Lloegr.

Nid oes gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fynediad at ddata mwy manwl, sy'n golygu bod cyfran helaeth o ddiffyg cyllidol honedig Cymru yn seiliedig ar ddyfalu yn hytrach nag ar ffeithiau caled.

**Cymru yn yr Economi Ranbarthol a Byd-Eang**

Nid yw economi Cymru yn ddibynnol ar dwristiaeth neu swyddi llywodraeth, fel y dywed rhai beirniaid.

[27] Prof. Richard Murphy, Funding the Future (18th August 2021). "Why GERS is wrong - yet again".

Yn 2022, dywedwyd bod Economi Cymru gwerth £85.4 biliwn ($105 biliwn).[28] Fesul unigolyn, byddai Cymru yn agos at fod yn y 30 uchaf yn fyd-eang, gan gymharu â gwledydd megis Sbaen, Saudi Arabia, Japan ac Estonia.[29]

Mae masnach â gweddill y Deyrnas Gyfunol yn bwysig, ond mae'n berthynas ddwy-ffordd. Bob blwyddyn, mae Cymru'n allforio £32.5 biliwn i weddill y Deyrnas Gyfunol ac yn mewnforio £37.4 biliwn yn gyfnewid am hynny. Nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu ydy'r rhan fwyaf o'r masnach hwn, nid gwasanaethau, ac mae hynny'n golygu y byddai Cymru annibynnol yn dal yn gallu gweithredu'n llwyddiannus o fewn fframwaith masnach ehangach ar gyfer Gwledydd Prydain.[30]

---

[28] Office of National Statistics (24th April 2024). "Regional gross domestic product 1998 to 2022".
[29] IMF, GDP-per-capita in US dollars (2022). Real GDP-per-capita of Wales in 2022 (£27,274) converted to average 2022 US dollar value ($33,716).
[30] Office of the Internal Market (2024). "Annual Report on the Operation of the UK Internal Market 2023-24".

**Cryfderau Economaidd Cymru**

Mae gan Gymru nifer o fanteision economaidd sylweddol y gellid eu datblygu'n llawn ar ôl cael annibyniaeth.

*1. Ynni Adnewyddadwy*

Mae Cymru eisoes yn cynhyrchu dwywaith cymaint o ynni ag y mae'n ei ddefnyddio.[31] Ond i allu elwa'n llawn o'r potensial hwn, rhaid i Gymru gael rheolaeth dros Ystad y Goron, sydd ar hyn o bryd yn trosglwyddo'r elw i San Steffan.

*2. Gweithlu â Sgiliau Lefel Uchel*

Yn 2023, roedd gan 45% o'r oedolion oed gweithio yng Nghymru gymhwyster sy'n cyfateb i radd prifysgol,[32] sy'n gyfran uwch na chwech o ranbarthau Lloegr. Mae'r gweithlu medrus hwn yn ased allweddol i ddiwydiannau megis:

---

[31] Welsh Government (October 2023). "Energy Generation in Wales: 2022".

[32] StatsWales, based on ONS Local Labour Force Survey data. "Highest qualification levels of working age adults by Uk country, region and qualification, Level 4 & above, year ending Dec 2023."

- Gweithgynhyrchu uwch.
- Awyrofod.
- Technolegau digidol.
- Y sector creadigol.

*3. Datblygu Busnesau o Faint Canolig (“Y Mittelstand Coll”)*

Un o’r heriau economaidd mwyaf sy’n wynebu Cymru ydy diffyg busnesau o faint canolig sydd dan berchenogaeth Gymreig.[33] Byddai’r *“Mittelstand Coll”* hwn – cyfeiriad at y rhwydwaith cryf o gwmnïau o faint canolig sy’n elfen ganolog yn economi’r Almaen – yn gallu cael ei gryfhau drwy bolisïau wedi’u targedu mewn Cymru annibynnol.

[33] Federation of Small Businesses (October 2017). “Wales’ Missing Middle”.

# Y Bunt, yr Ewro neu Bunt Cymru?

Yn ystod dadl y refferendwm yn yr Alban yn 2014, roedd cryn sôn am bolisi ariannol. Er bod yr Alban eisoes yn cyhoeddi ei harian papur ei hun, Banc Lloegr sy'n eu gwarantu yn y pen draw. I Gymru, byddai cyhoeddi ei harian ei hun yn ddatblygiad newydd, ond byddai annibyniaeth yn caniatáu i ni wneud y dewis gorau ar gyfer ein hamgylchiadau economaidd ein hunain.

Mae o leiaf pum opsiwn posib o ran arian cyfred, a phob un â'i fanteision a'i anfanteision ei hun:

**Cadw'r Bunt mewn Undeb Ariannol Ffurfiol**
Dyma'r opsiwn a fyddai'n achosi'r newid lleiaf, ond byddai'n golygu cadw Banc Lloegr fel benthyciwr pan fydd popeth arall yn methu, a chaniatáu iddyn nhw osod cyfraddau llog. Fodd bynnag, gan y byddai'n golygu undeb cyllidol gyda Lloegr, byddai amheuaeth a fyddai Cymru'n wirioneddol annibynnol.

### Cadw'r Bunt (neu Arian Arall) fel Arian Amnewid

Mae rhai gwledydd yn defnyddio arian tramor heb fod yn rhan o undeb ariannol ffurfiol. Er enghraifft:

- Mae Montenegro a Kosovo yn defnyddio'r ewro heb fod yn yr Undeb Ewropeaidd na pharth yr ewro.
- Mae rhai gwledydd yn America Ladin, fel Ecuador ac El Salvador yn defnyddio doler UDA.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wlad yn defnyddio'r bunt fel hyn, ond gallai Cymru ei mabwysiadu fel arian amnewid. Mae'r opsiwn hwn yn osgoi'r angen i gael banc canolog i Gymru, ond mae'n golygu hefyd na fyddai gan Gymru unrhyw reolaeth dros gyfraddau llog na pholisi ariannol.

### Cyplysu Arian Cymru gyda'r Bunt (neu Arian Arall)

Gallai Cymru greu ei harian cyfred ei hun, wedi'i gyplysu ar gyfradd gyfnewid gyson (e.e., 1:1 â'r bunt). Mae'r dull hwn yn:

- Cynnal sefydlogrwydd prisiau gyda’r Deyrnas Gyfunol.
- Caniatáu i Gymru gyhoeddi ei darnau a phapurau arian ei hun.
- Cadw’r bunt fel arian cyfreithlon ochr yn ochr ag arian cyfred Cymreig.

Fodd bynnag, byddai’r system hon yn golygu bod polisi ariannol Cymru yn dal i ddod dan ddylanwad yr arian cyfred cyplysedig, yn hytrach nag anghenion penodol Cymru.

Mae hyn yn debyg i’r hyn wnaeth Iwerddon am ddegawdau, sef cyplysu’r bunt Wyddelig â Sterling cyn ei rhyddhau, ac yn y pen draw, ei throsglwyddo i’r ewro.

**Arian Cymru gyda’i Gyfradd Gyfnewid ei Hun**
Byddai’r opsiwn hwn yn rhoi rheolaeth lwyr i Gymru dros bolisi ariannol, gan gynnwys:

- Gosod cyfraddau llog.
- Rheoli chwyddiant.
- Addasu llif arian.

Er bod hyn yn fwy cymhleth i'w roi ar waith, mae manteision sylweddol i sofraniaeth ariannol. Ni fyddai Cymru'n cael ei chyfyngu mwyach gan bolisïau a gaiff eu creu yn Llundain, a gallai ymateb i'w hanghenion economaidd ei hun.

Yn y tymor byr, er mwyn osgoi newidiadau mawr y naill ffordd a'r llall, gallai Cymru gyplysu ei harian ag un sydd wedi'i sefydlu ers tro, megis y bunt neu'r ewro.

Mae'r Swistir, er ei bod wedi'i chysylltu â Marchnad Sengl Ewrop, yn cynnal franc y Swistir. Hyd at 2015, roedd ei harian wedi'i gyplysu â'r ewro er mwyn osgoi tonnau mawr o newid. Gallai Cymru weithredu mewn modd tebyg, gan osgoi cael arian fyddai'n ennill gormod o werth.

**Ymuno â'r Ewro**

Petai Cymru'n ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, byddai mabwysiadu'r ewro yn opsiwn. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu:

- Creu arian Cymreig dros dro.
- Bodloni meini prawf gwariant a dyledion cyhoeddus.
- Bod yn rhan o'r Mecanwaith Cyfradd Gyfnewid Ewropeaidd (ERM II) am o leiaf ddwy flynedd cyn mabwysiadu'r ewro.

Gallai ymuno â'r ewro:

- Hybu masnach gyda'r Undeb Ewropeaidd.
- Cynyddu buddsoddi tramor a thwristiaeth.
- Darparu sefydlogrwydd fel rhan o undeb ariannol mawr.

Fodd bynnag, gallai olygu hefyd:

- Colli polisi ariannol annibynnol.
- Dod yn rhan o undeb cyllidol Ewropeaidd.
- Procio rhaniadau gwleidyddol tebyg i'r rhai a welwyd adeg dadl refferendwm yr UE yn 2016.

**Y Pwynt Allweddol: Mae gan Gymru Opsiynau**
Dylai'r dewis iawn fod yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau i economi Cymru. Does dim rheswm dros godi bwganod ynglŷn â chael ein gorfodi i fabwysiadu unrhyw un o'r opsiynau. Mae annibyniaeth yn golygu cael y rhyddid i benderfynu.

Yn y pen draw, nid gofyn a ydy Cymru'n gallu cael ei harian ei hun ydy'r cwestiwn pwysig, ond yn hytrach, pa opsiwn fyddai'n rhoi'r sail orau i ddyfodol economaidd Cymru.

# Beth am y Frenhiniaeth?

Barn *YesCymru* yw y dylai cwestiwn annibyniaeth a chwestiwn y frenhiniaeth gael eu cadw ar wahân. Gall pobl sy'n cefnogi annibyniaeth i Gymru, neu sy'n chwilfrydig ynglŷn ag annibyniaeth, fod o blaid cadw'r frenhiniaeth, ac mae rhai cefnogwyr eraill yn weriniaethwyr pybyr.

Un opsiwn ydy i frenin neu frenhines Prydain barhau yn bennaeth ar y wladwriaeth, gyda Chymru yn dod yn 'deyrnas yn y Gymanwlad' yn debyg i Awstralia a Chanada. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai Cymru'n cadw'r frenhiniaeth, byddai'r berthynas rhwng Cymru a'r Goron yn newid yn ddi-os.

I'r rhai sy'n gwrthwynebu cadw'r frenhiniaeth, mae'n werth nodi iddi fod yn 15 mlynedd (wedi Cytundeb Eingl-Wyddelig 1921) cyn i Iwerddon ddod yn weriniaeth a 12 mlynedd arall cyn iddi ddod yn weriniaeth oddi allan i'r Gymanwlad.[34]

---

[34] The 1937 Constitution of Ireland and the Republic of Ireland Act 1948.

Pe na bai Cymru'n cael pennaeth etholedig ar y wladwriaeth ar unwaith wrth gael annibyniaeth, a phe bai pobl Cymru'n rhoi mandad i wleidyddion wneud hynny, byddai modd penderfynu ar hyn yn ddiweddarach mewn refferendwm arall, ar ffurf gwelliant cyfansoddiadol.

P'un ai yw'r frenhiniaeth yn cael ei chadw ai peidio, dylid trosglwyddo tir yng Nghymru sy'n eiddo i'r teulu brenhinol ac yn cael ei reoli ar eu rhan – Ystad y Goron – i reolaeth Cymru. Mewn amcangyfrif diweddar, a gafwyd drwy gais Rhyddid Gwybodaeth, nodwyd bod asedau Ystad y Goron yng Nghymru gwerth dros £850 miliwn.[35]

Ystad y Goron sydd "piau" y glannau o amgylch arfordir Cymru, sy'n golygu bod disgwyl i'r teulu brenhinol a Thrysorlys y Deyrnas Gyfunol ennill elw mawr o brydlesu'r tir hwn ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr ac ynni llanw.

---

[35] Emily Price, Nation.Cymru (1st September 2023). "FOI request reveals staggering breakdown of Crown Estate assets in Wales".

Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol: a ddylai'r elw hwn fynd er budd sefydliad y Deyrnas Gyfunol, neu a ddylid ei ddefnyddio i ddatblygu economi Cymru er lles ei phobl hithau?

# Cymru, y Byd, a Brexit

Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan Gymru ar faterion byd-eang ar hyn o bryd, gyda llywodraeth San Steffan yn llefaru ar ran y Deyrnas Gyfunol gyfan ar lwyfan y byd. Gan mai yn Lloegr mae 84% o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol, ei buddiannau hi sy'n dylanwadu'n bennaf ar drafodaethau a chysylltiadau rhyngwladol.

Roedd hyn yn amlwg yn ystod trafodaethau Brexit. Ym mis Ionawr 2017, datgelwyd bod llywodraeth Prydain yn ystyried y diwydiant dur yn flaenoriaeth isel mewn trafodaethau masnach â'r Undeb Ewropeaidd.[36] O ganlyniad, daeth diwedd ar gynhyrchu dur cynradd ym Mhort Talbot yn 2024. Os nad yw rhywbeth o bwys yn Lloegr, caiff ei wthio'n aml i gefn y ciw.

[36] BBC Wales (13th February 2017). "Brexit minister says UK 'not pursuing hard immigration policy". Quote: "Mr (David) Jones declined to comment on leaked reports that steel would be treated as a 'low priority' in Brexit negotiations."

Rydym wedi gweld hyn hefyd yn natblygiad polisi mewnfudo ôl-Brexit. Cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol drothwy incwm ar gyfer darpar fewnfudwyr, a hynny ar sail cyflogau cyfartalog sydd wedi'u camliwio gan lefelau de Lloegr.[37] Creodd y polisi hwn ansicrwydd y gellid bod wedi'i osgoi i sectorau allweddol yng Nghymru sy'n dibynnu ar weithwyr mudol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, lletygarwch, y GIG a'r diwydiant bwyd.[38]

## Cymru Annibynnol y Tu Allan i'r Undeb Ewropeaidd

Beth bynnag fo'ch barn am yr Undeb Ewropeaidd, annibyniaeth yw'r unig ffordd i sicrhau bod gan Gymru reolaeth dros ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Os oes angen trafod cytundebau masnach newydd, rhaid eu cynllunio er budd i Gymru. Fel y gwelwyd gydag ymdriniaeth llywodraeth Prydain o'r diwydiant dur, anaml iawn

[37] UK Government, "Family visas: apply, extend or switch".
[38] Chartered Institute of Personnel & Development (31st October 2023). "Skills shortage vacancies have more than doubled in Wales over the last six years, CIPD report shows".

y bydd anghenion economaidd Cymru yn flaenoriaeth. Mae San Steffan yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r banciau a'r gwasanaethau ariannol sydd wedi crynhoi yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

Byddai gan Gymru annibynnol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ryddid i drafod ei chytundebau masnach ei hun, gan sicrhau telerau teg i sectorau allweddol yn economi Cymru.

**Mynediad i'r Farchnad Sengl heb fod yn Aelod o'r Undeb Ewropeaidd**

Byddai mynediad i farchnad sengl Ewrop (aelodaeth EEA) yn galluogi Cymru i fasnachu'n rhydd gyda'r Undeb Ewropeaidd a chymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni fyddai Cymru yn rhan o sefydliadau gwleidyddol yr Undeb Ewropeaidd, megis y Comisiwn Ewropeaidd, ac ni fyddai chwaith yn gallu cynnig na phleidleisio ar gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd.

Er mwyn sicrhau mynediad i'r farchnad sengl, gallai Cymru:

- Drafod a chytuno ar ei thelerau masnach ei hun â'r Undeb Ewropeaidd, yn debyg i'r Swistir.
- Ymuno â'r Gymdeithas Masnach Rydd Ewropeaidd (EFTA), sy'n darparu mynediad i'r farchnad sengl heb fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd.

Byddai cost mynediad i'r farchnad sengl yn dibynnu ar ba rai o raglenni'r Undeb Ewropeaidd y byddai Cymru yn dewis bod yn rhan ohonynt. Byddai aelodaeth o EFTA hefyd yn golygu cyfrannu at gostau gweinyddu a rhaglenni grantiau, gyda'r ffioedd yn seiliedig ar faint economi Cymru.

**Ailymuno â'r Undeb Ewropeaidd**
Fel dewis arall, gallai Cymru annibynnol gynnal refferendwm ar aelodaeth lawn o'r Undeb Ewropeaidd. I ailymuno, byddai angen i Gymru wneud cais dan Erthygl 49 Cytundeb Lisbon, a byddai angen cymeradwyaeth gan Gyngor yr

Undeb Ewropeaidd a Senedd Ewrop. Byddai aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu:

- Masnach rydd a rhyddid i symud gyda phob aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Llais llawn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys seddi yn y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ewropeaidd.
- Cynrychiolaeth yn Senedd Ewrop, fyddai'n debygol o olygu ethol tua 10 ASE yn hytrach na'r 4 ASE yr oedd Cymru'n eu hethol dan aelodaeth y Deyrnas Gyfunol.
- Bod yn rhan o raglenni cyllido yr Undeb Ewropeaidd.

Byddai'n rhaid i Gymru gyfrannu at gyllideb yr Undeb Ewropeaidd, ond yn 2016, amcangyfrifodd Prifysgol Caerdydd fod Cymru'n cael £245 miliwn yn fwy gan yr Undeb Ewropeaidd nag oedd yn ei thalu dan drefniant aelodaeth y Deyrnas Gyfunol.[39]

[39] G. Ifan, E. Poole, RW. Jones, Cardiff University (24th May 2016). "Wales and the EU Referendum: Estimating Wales' Net Contribution to the European Union".

**Pam bod angen i ni gael Polisi Tramor i Gymru**
Sut bynnag y pleidleisiodd pobl yn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, mae'n amlwg y byddai o les i fuddiannau Cymru pe bai gan Gymru ei sedd ei hun wrth y byrddau trafod byd-eang. Yn hytrach na bod yn "gryfach gyda'n gilydd" yn y Deyrnas Gyfunol, mae Brexit wedi dangos bod llais Cymru yn aml yn mynd ar goll wrth wneud penderfyniadau rhyngwladol o bwys.

Mae posibilrwydd hefyd y gellid cael llysgenhadon ar y cyd, mewn model tebyg i'r un a ddefnyddir gan wledydd Nordig ym Merlin, lle mae nifer o wledydd yn rhannu adnoddau.

Gydag annibyniaeth, byddai Cymru yn dod yn aelod llawn o sefydliadau rhyngwladol pwysig, yn cynnwys:

- Y Cenhedloedd Unedig a'i hasiantaethau.
- Cyngor Ewrop.
- Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).
- Cyrff rhyngwladol allweddol eraill.

Gallai Cymru gael ei hethol i sedd gylchol ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig hyd yn oed, fel y gwnaeth Iwerddon bedair gwaith.[40]

Mae annibyniaeth yn cynnig y cyfle i Gymru sefyll ar ei thelerau ei hun, datblygu perthnasoedd masnach cryfach, a sicrhau y caiff lleisiau Cymru eu clywed ar lwyfan y byd.

---

[40] Permanent mission of Ireland to the UN (website), "Ireland's service to the UN".

# Amddiffyn

Un o brif swyddogaethau unrhyw lywodraeth yw diogelu ei dinasyddion. Mae amddiffyn yn golygu mwy nag awyrennau a llongau rhyfel – mae hefyd yn golygu diogelu pobl rhag niwed o bob math, boed hynny gan fygythiadau milwrol, trychinebau naturiol, neu ymosodiadau seiber.

**Rhag Beth Mae Angen Amddiffyn Cymru?**
Mae Cymru wedi'i lleoli yn un o ranbarthau mwyaf diogel y byd, a phrin yw'r risgiau sy'n ei hwynebu o ran ymosodiadau neu oresgyniad. Fodd bynnag, mae'r darlun o ran diogelwch byd-eang yn newid.

Mae hen fygythiadau yn dod yn ôl i'r wyneb, megis Rwsia ymosodol sydd â'i bryd ar ehangu, ac mae risgiau newydd yn dod yn fwy arwyddocaol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd – yn arwain at lifogydd, erydu'r arfordir, tanau gwyllt, a digwyddiadau tywydd eithafol.

Ymosodiadau seiber – yn targedu seilwaith allweddol, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

- Ymgyrchoedd camwybodaeth ar-lein – sydd â'r bwriad o ddadsefydlogi cyfundrefnau democrataidd a dylanwadu ar etholiadau.

Mae rhai cenhedloedd yn gweithredu heb luoedd arfog sefydlog. Er enghraifft, nid oes gan Costa Rica (poblogaeth o 5.2 miliwn) luoedd arfog ers 1949, ac mae Gwlad yr Iâ wedi bod heb luoedd ers 1869. Fodd bynnag, petai Cymru yn sefydlu ei llu amddiffyn ei hun, sut olwg fyddai arno?

**Beth Fyddai Lluoedd Amddiffyn Cymru yn ei Wneud?**

Er y byddai gan y lluoedd arfog rôl yn brwydro petai angen, byddai ganddynt swyddogaeth bwysig hefyd yn cefnogi polisi tramor.

Mae degawdau o fethiannau polisi tramor y Deyrnas Gyfunol – o ryfel Irac i'r traed moch wrth dynnu allan o Afghanistan – wedi niweidio Cymru drwy gysylltiad.

Byddai annibyniaeth yn caniatáu i Gymru weithredu mewn modd gwahanol, gan ganolbwyntio ar gadw heddwch a lliniaru effeithiau trychinebau.

Gallai Cymru ddilyn esiampl Iwerddon drwy ddod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant milwrol dyngarol, gan gefnogi ein blaenoriaethau ar yr un pryd, megis:

- Gwaith chwilio ac achub.
- Diogelu pysgodfeydd.
- Ymdrechion gwrthsmyglo.
- Mesurau seiberddiogelwch a gwrthderfysgaeth.

Petai Cymru yn sefydlu Lluoedd Amddiffyn Cymru ar batrwm lluoedd Iwerddon, mae'n debyg y byddai ganddynt un fframwaith gorchymyn fyddai'n goruchwylio gweithgareddau ar y tir a'r môr, ac yn yr awyr, gyda'r prif sylw ar luoedd ar y tir. Byddai cyfuniad o luoedd sefydlog a lluoedd wrth gefn yn debygol o roi cyfanswm o tua 5,000 i 7,000 o aelodau.

**Faint Fyddai Cost Polisi Amddiffyn Cymru?**

Mae'n werth nodi bod y Deyrnas Gyfunol yn ddeuddegfed yn y byd o ran gwariant milwrol y pen.[41] Er nad oes yr un gatrawd wedi'i lleoli yng Nghymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn gwario £2.7 biliwn y flwyddyn o ran cyfran ar amddiffyn yng Nghymru[42] – mwy na'r gwariant blynyddol ar addysg (£2.2 biliwn yn 2023/24) a dros chwe gwaith mwy na chyllideb yr heddlu yng Nghymru (£434 miliwn yn 2023/24).

Mae Cyllideb Lluoedd Amddiffyn Iwerddon tua €1.3 biliwn y flwyddyn. Petai Cymru yn neilltuo swm tebyg y pen,[43] byddai ei chyllideb amddiffyn oddeutu £732 miliwn y flwyddyn – llawer llai na'r £2.7 biliwn sy'n cael ei wario ar hyn o bryd.

---

41 SIPRI Milex, Military Expenditure Database. "Military spending by per capita, US dollars, 2023"

42 Office of National Statistics (7th June 2024). "Country and regional public sector finances expenditure tables (Wales, Total Managed Expenditure, Defence, 2022-23)".

43 Irish defence spending in 2024 was €1.5bn (£1.24bn). Per head this works out as €285 (£236).

Fel arall, petai Cymru'n ymuno â NATO ac yn cyflawni targed y gynghrair o 2% o GDP, byddai ei chyllideb amddiffyn oddeutu £1.7 biliwn y flwyddyn.[44]

Gallai Cymru annibynnol gyflwyno mesurau diogelu cyfansoddiadol hefyd a fyddai'n cyfyngu ar bwerau gwleidyddion i anfon milwyr i ryfel. Yn y Deyrnas Gyfunol, mae'r Prif Weinidog yn gallu mynd i ryfel heb gymeradwyaeth seneddol. Gallai cyfansoddiad i Gymru sicrhau bod rhaid i'r Senedd gymeradwyo unrhyw ddefnydd o bwerau rhyfela. O safbwynt diogelwch mewnol, mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 – sy'n cael ei galw hefyd yn 'Siarter Busnesu' – yn caniatáu pwerau eang i'r llywodraeth fonitro ein gweithgareddau ar-lein. Gallai Cymru annibynnol ymgorffori hawliau i breifatrwydd yn ei chyfansoddiad, gan atal llywodraethau yn y dyfodol rhag gorymestyn eu pwerau i fusnesu ym mywydau personol pobl.

[44] Office of National Statistics (24th April 2024). "Regional gross domestic product 1998 to 2022". 2% of the 2022 Welsh GDP figure of £85.4 billion.

**Newid Hinsawdd fel Mater o Amddiffyn**
Un o’r bygythiadau mwyaf i Gymru – ac i’r byd – ydy’r newid yn yr hinsawdd. Mae tywydd eithafol wedi bod yn rhan o fywyd yng Nghymru erioed, ond mae stormydd a oedd yn arfer digwydd unwaith mewn degawd yn digwydd bob blwyddyn erbyn hyn.

Mae methiant Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gefnogi Cymru yn y maes hwn yn amlwg:

- Amcangyfrifir y bydd yn costio £600 miliwn i wneud hen domenni glo yn ddiogel, ond hyd at 2024, dim ond £25 miliwn y mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi’i neilltuo[45] – er eu bod wedi cadw cyfrifoldeb dros y tomenni hyn drwy’r Awdurdod Glo.[46]

[45] Welsh Government (10th December 2024). “Deputy First Minister confirms total of over £100m for coal tip safety this Senedd term”.
[46] Government of Wales Act 2006, Schedule 71, Section D3 Coal.

- Yn ystod Storm Dennis yn 2020, a achosodd lifogydd difrifol mewn cymunedau yng Nghymru, ni chafodd lluoedd arfog eu rhoi ar waith i gynorthwyo Cymru.
- Mae amddiffyn sifil yn parhau yn flaenoriaeth isel i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol o gymharu â'r sylw mae'n ei roi i weithredu milwrol dramor.

I Gymru, mae gwariant ar amddiffyn yn teimlo fel polisi yswiriant nad yw byth yn talu.

Mae sicrhau annibyniaeth ynni hefyd yn fater o amddiffyn. Mae lleihau dibyniaeth ar fewnforion o wladwriaethau awdurdodaidd yn cryfhau diogelwch cenedlaethol ac o fudd i'r amgylchedd hefyd.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn ydy:

- Cynyddu gwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy gartref.
- Cyflymu'r trawsnewid i gludiant heb allyriadau.

- Ennill rheolaeth dros bolisi ynni, sydd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i San Steffan.

Fel y mae hi nawr, nid yw Cymru yn gallu cymeradwyo prosiectau ynni mwy na 350MW ac nid oes ganddi unrhyw reolaeth dros y grid ynni na'r diwydiant niwclear. Byddai annibyniaeth yn caniatáu i Gymru gymryd rheolaeth dros ei diogelwch ynni, gan sicrhau bod anghenion Cymru yn cael blaenoriaeth dros fuddiannau San Steffan.

# Mewnfudo a Chenedligrwydd

Fel cenedl annibynnol, byddai polisi mewnfudo'n cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Byddai gan Gymru yr awdurdod i benderfynu pwy sy'n gallu dod i mewn, aros, gweithio ac ymgartrefu – boed hynny dros dro fel yn achos myfyrwyr sy'n mynychu prifysgol, neu'n barhaol, ar gyfer y rhai sy'n awyddus i greu bywyd newydd yma yng Nghymru.

**A Fydd Ffin Galed â Lloegr?**
Mae'r syniad o "ffin galed" â Lloegr, gyda gwarchodwyr a gwiriadau pasbort, yn hynod annhebygol. Does dim angen i ni edrych ymhell i weld pam.

Mae Iwerddon wedi bod yn annibynnol ers 1922, ond eto mae modd teithio'n ddirwystr rhwng Iwerddon a'r Deyrnas Gyfunol. Wrth gyrraedd Dulyn neu Rosslare, nid oes angen gwirio pasbortau. Yn yr un modd, wrth yrru rhwng

Gogledd Iwerddon a’r Weriniaeth, yr unig arwyddion eich bod yn croesi ffin ryngwladol ydy’r newidiadau i’r marciau ar y ffordd a’r arwyddion ffordd.

Mae hynny oherwydd yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA) – cytundeb rhwng y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon sy’n caniatáu rhyddid i ddinasyddion y ddwy wlad deithio i wledydd ei gilydd. Yn 2019, arwyddodd y ddwy lywodraeth femorandwm dealltwriaeth i gadarnhau y byddai’r CTA yn parhau, hyd yn oed ar ôl Brexit.[47]

Byddai bron yn sicr y byddai Cymru annibynnol yn cytuno ar yr un telerau ag Iwerddon dan yr Ardal Deithio Gyffredin.

Ymhlith posibiliadau eraill, mae dod i gytundeb â gweddill Prydain Fawr ynglŷn â pholisi mewnfudo ar y cyd neu drafod cytundebau ar wahân gyda gwledydd eraill ynglŷn â phwy sy’n cael byw a gweithio yng Nghymru.

---

[47] UK Government (8th May 2019). “Memorandum of Understanding between the UK and Ireland on the CTA.

**System Fewnfudo Decach**

Mae system fewnfudo y Deyrnas Gyfunol wedi cael ei beirniadu oherwydd ei pholisïau gelyniaethus a chreulon.

Un o'r enghreifftiau mwyaf cywilyddus oedd y modd y cafodd cenhedlaeth Windrush eu cam-drin, gyda rhai a fu'n breswylwyr sefydlog yn cael eu carcharu ar gam, yn methu â derbyn gofal iechyd, a hyd yn oed yn cael eu halltudio o'r Deyrnas Gyfunol. Canlyniad oedd hynny i bolisi "Amgylchedd Gelyniaethus" Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, a oedd yn golygu mynd ati'n fwriadol i osod rhwystrau i fudwyr drwy godi braw a biwrocratiaeth.

Byddai Cymru annibynnol yn gallu ymwrthod â'r agwedd hon, gan sicrhau bod polisi mewnfudo yn seiliedig ar degwch, parch ac anghenion cymunedau Cymru a'i heconomi.

Mae Cymru wedi dibynnu ers tro ar weithwyr mudol mewn sectorau allweddol megis gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a chynhyrchu bwyd.

Byddai annibyniaeth yn galluogi Cymru i greu system fewnfudo sy'n gweithio i ni, yn hytrach nag un sy'n gaeth i bolisïau San Steffan.

**Gwneud Penderfyniadau yng Nghymru, ar gyfer Cymru**

Y pwynt allweddol yw y byddai polisïau mewnfudo, dinasyddiaeth a ffiniau yn cael eu penderfynu yng Nghymru.

Yn hytrach na chael ein gorfodi i dderbyn polisïau'r Deyrnas Gyfunol gyfan nad ydynt yn adlewyrchu anghenion Cymru, byddai gan Gymru y grym i:

- Benderfynu pwy sy'n cael byw a gweithio yng Nghymru.
- Sicrhau bod teithio'n parhau mor ddirwystr â phosib.
- Llunio system fewnfudo waraidd sy'n adlewyrchu gwerthoedd Cymru.

Fel yr holl faterion eraill, byddai'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan bobl Cymru, ar sail anghenion Cymru.

# Ond Beth Am ... ?

Mae llawer o bobl yn hoffi'r syniad o annibyniaeth ond yn poeni beth allai newid. Er bod adeiladu democratiaeth newydd yn swnio'n gyffrous, y gofid i'r rhan fwyaf o bobl yw y gallai hyn droi eu bywydau wyneb i waered dros nos.

**Faint o Ddyled Genedlaethol y Deyrnas Gyfunol Fyddai Cymru yn ei Hetifeddu?**

Cwestiwn sy'n codi'n aml wrth drafod annibyniaeth ydy a fyddai Cymru'n cael cyfran o ddyled genedlaethol y Deyrnas Gyfunol yn faich. Yn 2023, roedd dyled genedlaethol y Deyrnas Gyfunol yn fwy na £2.7 triliwn,[48] gyda llawer wedi'i gronni dros flynyddoedd maith o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan lywodraethau'r Deyrnas Gyfunol.

---

[48] Office of National Statistics (30th April 2024). "UK government debt & deficit - December 2023".

Nid oes unrhyw reol sy'n dweud bod rhaid i Gymru dderbyn unrhyw gyfran o'r ddyled hon - byddai'n rhan o'r trafodaethau.[49]

Ychydig iawn o ddyled y Deyrnas Gyfunol, neu ddim o gwbl, a dderbyniodd rhai cenhedloedd fel Iwerddon pan ddaethant yn annibynnol yn 1922 er mwyn hwyluso creu Gogledd Iwerddon.[50] Mae rhai cenhedloedd wedi cytuno i dderbyn cyfran, ond roedd hynny'n cael ei gydbwyso'n aml drwy dderbyn asedau megis cronfeydd wrth gefn tramor, seilwaith, neu sefydliadau oedd yn eiddo i'r wladwriaeth.

Byddai annibyniaeth yn rhoi rheolaeth i Gymru dros ein benthyca ein hunain ar sail ein hanghenion. Mae hyn yn golygu y byddem yn gallu penderfynu ble i fuddsoddi, boed hynny mewn

[49] This argument has been used in the context of Scottish independence as the UK has not signed or ratified a treaty called the Vienna Convention on the Succession of States with respect to State Property, Archives and Debts.
[50] J Fitzgerald, S. Kenny, "Till debt do us part": financial implications of the divorce of the Irish Free State from the United Kingdom, 1922–1926, *European Review of Economic History*, Volume 24, Issue 4, November 2020, Pages 818–842.

seilwaith, gwasanaethau cyhoeddus, neu dyfu ein heconomi.

## Beth Fyddai'n Digwydd i Gyflogwyr Mawr Sector Cyhoeddus y Deyrnas Gyfunol yng Nghymru, Fel y DVLA, ONS a HMRC?

Efallai y byddai rhai swyddi'n cael eu colli wrth i adrannau sy'n perthyn i'r Deyrnas Gyfunol leihau, ond byddai angen sefydliadau ar Gymru i gyfateb i rai fel y DVLA (Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau), ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol), a HMRC (Cyllid a Thollau EF). Gallai llawer o weithwyr y sector cyhoeddus symud i adrannau llywodraeth newydd yng Nghymru, megis Gweinyddiaeth Amddiffyn neu'r hyn fyddai'n cyfateb i'r Swyddfa Dramor.

Gallai creu'r adrannau cyhoeddus newydd hyn gynhyrchu digon o swyddi i gymryd lle'r rhai a gollir.

## Beth Fydd yn Digwydd i Fudd-daliadau a Chymorth ar gyfer Anabledd?

Ar hyn o bryd, mae budd-daliadau a chymorth ar gyfer anabledd yn cael eu rheoli gan San Steffan.

Mae hyn yn cynnwys taliadau fel y Credyd Cynhwysol, Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP), Lwfans Gofalwyr, a Lwfans Ceisio Gwaith. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i newid y systemau hyn.

Mae llawer o bobl o'r farn bod system budd-daliadau'r Deyrnas Gyfunol yn araf, yn annheg, ac yn anodd cael mynediad iddi, yn enwedig i bobl anabl. Mae rhai polisïau, megis sancsiynau ar fudd-daliadau ac asesiadau llym, yn gwthio pobl sy'n agored i niwed i sefyllfa o galedi.

Gallai Cymru annibynnol lunio system yn seiliedig ar degwch, urddas, ac effeithlonrwydd. Er enghraifft, gallem:

- Wella'r gefnogaeth i ofalwyr.
- Rhoi mwy o bŵer i feddygon teulu asesu ar gyfer budd-daliadau anabledd.
- Os bydd adnoddau'n caniatáu, cyflwyno incwm sylfaenol i bawb neu warant o ran lleiafswm incwm.

## A Fydda' i'n Derbyn Pensiwn ar ôl Annibyniaeth?

Mae llawer o bobl yn poeni a fyddai pensiynau yn dal i gael eu talu ar ôl cael annibyniaeth. Byddai pensiynau gwladol yn rhan allweddol o'r trafodaethau annibyniaeth.

Mae pensiynau gwladol yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Dylai fod gan unrhyw un sydd wedi talu i mewn i'r system yr hawl i gael eu pensiwn gwladol, ble bynnag y maen nhw'n byw. Caiff dros filiwn o bensiynau gwladol y Deyrnas Gyfunol eu talu eisoes i bobl sy'n byw dramor.[51]

Mae pensiynau preifat a rhai gweithleoedd hefyd yn cael eu diogelu'n gyfreithiol, sy'n golygu bod rhaid iddyn nhw dalu'r hyn y mae eu haelodau wedi'i ennill.

Yn y dyfodol, gallai Cymru wneud sicrwydd wrth ymddeol yn flaenoriaeth genedlaethol. Gallai hynny gynnwys creu pensiwn gwladol Cymru,

---

[51] F. Ahmed, Legal & General (24th October 2024, website). "Can I claim my pension if I move abroad?"

gyda chefnogaeth bosib gan ffynonellau ariannu newydd fel cronfa gyfoeth sofran.

**A Fydd fy nghyfrif Banc, Morgais, Benthyciadau, a Chardiau Credyd dal yn Ddilys?**

Byddan. Mae contractau ariannol wedi eu rhwymo o dan y gyfraith, felly byddai eich cyfrif banc, morgais, benthyciadau, a chardiau credyd yn parhau'n ddilys, beth bynnag fo'r newidiadau gwleidyddol.

Mae bancio'n fyd-eang. Mae llawer o bobl eisoes yn defnyddio banciau digidol fel Monzo, Revolut, a Starling, sy'n gweithredu ar draws ffiniau. Mae gan fanciau traddodiadol fel HSBC, Barclays a Lloyds hefyd ganghennau ledled y byd hefyd.

Byddai banciau yng Nghymru yn parhau dan yr un system oni bai bod y Senedd yn cyflwyno rheolau newydd. Hyd yn oed petai Cymru yn creu ei banc canolog ei hun, byddai gan bobl fynediad o hyd i wasanaethau bancio rhyngwladol.

Petai Cymru yn cyflwyno ei harian ei hun, byddai sefydliadau ariannol yn rheoli’r newid yn ofalus, gan sicrhau bod taliadau, cynilion, a dyledion yn parhau’n ddiogel. Mae cenhedloedd eraill sydd wedi cael annibyniaeth o’r newydd, fel Iwerddon, wedi gwneud hyn ac wedi cynnal sefydlogrwydd ariannol.

**A fydd fy Mhasbort, a fy Nhrwydded Yrru dal yn Ddilys?**

Byddai Cymru annibynnol yn cyhoeddi ei phasbortau a’i thrwyddedau gyrru ei hun ond ni fyddai angen i chi newid eich rhai cyfredol ar unwaith.

Byddai angen adnewyddu pasbortau o fewn cyfnod penodol ar ôl cael annibyniaeth, gan ddibynnu ar y ddinasyddiaeth y byddwch yn dewis ei chadw.

Mae’n debyg y byddai trwyddedau gyrru yn parhau’n ddilys am gyfnod hirach, o bosib hyd at y dyddiad y byddant yn dirwyn i ben, oherwydd nad ydynt yn brawf o ddinasyddiaeth.

**A fydd Hawl o hyd i Ddefnyddio Ysbytai yn Lloegr?**

Byddai. Mae gofal iechyd yng Nghymru wedi'i ddatganoli'n llawn ers 1999, sy'n golygu bod GIG Cymru eisoes wedi'i wahanu'n rhannol o NHS England, NHS Scotland, ac Adran Iechyd Gogledd Iwerddon.

Dan gytundeb yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA), mae gan ddinasyddion y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon ryddid i symud a chael mynediad at wasanaethau cyhoeddus penodol, gan gynnwys gofal iechyd, ar yr un telerau â thrigolion lleol. Mae cytundebau yn eu lle hefyd sy'n galluogi pobl i dderbyn gofal brys a gofal a gynlluniwyd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac Iwerddon. Mae'r cytundebau hyn hyd yn oed yn cynnwys gofal brys yn Nhiriogaethau Dibynnol y Goron.[52]

[52] UK Government, "Common Travel Area: rights of UK & Irish citizens".

Cyn belled â bod y CTA (neu drefniant tebyg) yn parhau, byddai pobl sy'n teithio rhwng Cymru a Lloegr – gan gynnwys y rhai sy'n byw ar hyd y ffin – yn parhau i gael mynediad rhwydd at ofal iechyd brys. Mae'n debygol y byddai systemau sydd yn eu lle ar gyfer gofal arferol, megis cofrestriadau gyda meddygon teulu, triniaethau ysbyty, ac atgyfeiriadau at arbenigwyr, yn parhau, gyda thrafodaethau yn sicrhau trosglwyddiad llyfn.

Gallai annibyniaeth alluogi Cymru i ddatblygu arbenigedd dwfn mewn meysydd meddygol penodol, gan ddenu cleifion rhyngwladol. Mae llawer o wledydd yn gwneud hyn eisoes - er enghraifft, Almaenwyr yn teithio i Hwngari ar gyfer gofal deintyddol neu Brydeinwyr yn mynd i Dwrci. Ategu gwasanaethau'r GIG i drigolion Cymru fyddai hynny, nid eu disodli.

**Beth os ydw i'n Byw yng Nghymru ond yn Gweithio yn Lloegr?**

Fel y soniwyd eisoes, mae'r Ardal Deithio Gyffredin (CTA) yn gwarantu rhyddid i symud rhwng Prydain Fawr, Iwerddon a Thiriogaethau Dibynnol y Goron. Mae hyn yn gwarantu'r hawl i weithio neu astudio heb fisa.

Mae llawer o bobl Ewrop eisoes yn cymudo dros ffiniau rhyngwladol ar gyfer gwaith. Mae cytundebau safonol yn sicrhau hawliau gweithwyr, eu trefniadau treth, a mynediad at wasanaethau fel gofal iechyd (fel y soniwyd). Byddai'r mathau hyn o gytundebau yn helpu i gadw'r ffin ddirwystr sydd eisoes yn bodoli rhwng Cymru a Lloegr.

**Beth am fy Nghyngor Lleol?**

Byddai Cymru annibynnol yn cryfhau democratiaeth leol. Gellid sicrhau amddiffynfa gyfansoddiadol i'r cynghorau i atal ymyrraeth ormodol gan y llywodraeth ganolog. Gallan nhw hefyd godi a chadw cyfran uwch o'u cyllid eu hunain, gan ganiatáu iddyn nhw wario trethi lleol ar flaenoriaethau lleol. Gallai ffiniau sefydlog atal yr

ad-drefnu mynych a diangen a welwyd yn y gorffennol.

Mae rhai pwerau – megis gwasanaethau bws a threthu ail gartrefi – wedi’u dirprwyo eisoes i gynghorau sir a chymuned dan y Senedd.

Mae gwahanol ffyrdd y gallai Cymru drefnu llywodraeth leol ar ôl cael annibyniaeth. Gallem barhau ag awdurdodau unedol, cyflwyno llywodraeth ranbarthol (fel Cynulliad Llundain), neu hyd yn oed greu system ffederal sy’n rhoi mwy o rym i gymunedau lleol. Mae llawer o wledydd yn defnyddio’r systemau hyn yn llwyddiannus, felly byddai gan Gymru gyfres o opsiynau.

## Pa Effaith fydd ar Ffermwyr Cymru a Diogelwch bwyd?

Mae ffermio’n hollbwysig i economi wledig Cymru, ond er ei fod yn faes sydd wedi’i ddatganoli, mae penderfyniadau allweddol yn dal i gael eu dylanwadu gan San Steffan. Mae cytundebau masnach ôl-Brexit gydag Awstralia a Seland Newydd yn caniatáu mewnforion cig

rhatach, o ansawdd is, sy'n ei wneud yn anoddach i ffermwyr Cymru gystadlu. Er bod amaeth wedi'i ddatganoli, nid yw San Steffan chwaith wedi adfer yn llawn y £250 miliwn mewn cymorthdaliadau ffermio gan yr Undeb Ewropeaidd a gollodd Cymru ar ôl Brexit.[53]

Byddai annibyniaeth yn rhoi reolaeth lawn i Gymru dros bolisïau amaeth a diogelwch bwyd. Byddai hyn yn galluogi Cymru i ddiogelu ffermwyr lleol rhag cystadleuaeth annheg, buddsoddi mewn ffermio cynaliadwy, a datblygu system fwyd fydd o fudd i'r cynhyrchwyr a'r defnyddwyr.

## A fydd Annibyniaeth yn gallu gwneud Tai yn fwy Fforddadwy?

Mae polisi tai wedi'i ddatganoli, ond mae pwerau ariannol allweddol yn parhau yn San Steffan. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i Gymru fynd i'r afael â rhenti sy'n codi, phrisiau tai, a digartrefedd.

---

[53] Farmers Union of Wales, SFS Consultation Response quote: "Between 2019 and 2025, Welsh agriculture will have received around £250 million less in funding than what we could have expected had the UK remained within the EU."

Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gosod budd-dâl tai, sy'n golygu nad yw Cymru yn gallu addasu'r gefnogaeth i'r rhai sy'n rhentu. Mae rheolau trethu ar landlordiaid ac ail gartrefi, ac eithrio treth y cyngor, hefyd dan reolaeth San Steffan, ac mae hynny'n cyfyngu ar ymdrechion i reoli'r hapfasnach ar gartrefi gwyliau sy'n prisio pobl leol allan o'u cymunedau.

Gydag annibyniaeth, gallai Cymru gyflwyno rheolaeth gryfach ar renti, buddsoddi mwy mewn tai cymdeithasol, a gosod rheolau treth tecach ar gyfer ail gartrefi. Byddai hyn yn rhoi'r pŵer i Gymru drin cartrefi fel hawl sylfaenol yn hytrach na nwyddau masnachol.

**Beth fydd yn digwydd i Drafnidiaeth?**
Fel y soniwyd eisoes, nid oes gan Gymru reolaeth lawn dros ei seilwaith rheilffyrdd. Mae'r methiant i ddatganoli'r pwerau hyn yn 2005 wedi arwain at golli biliynau o bunnoedd mewn cyllid, megis penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gategoreiddio HS2 yn brosiect "Lloegr a Chymru" er mai Lloegr sy'n cael yr holl fanteision.

Er bod rhai pwerau ym maes Trafnidiaeth wedi'u datganoli, mae San Steffan yn parhau i reoli'r seilwaith rheilffyrdd a thrwyddedu gyrwyr, yn ogystal â'r rhan fwyaf o gyfreithiau sy'n ymwneud â theithio ar y môr a hedfan.[54] Byddai llawer o bethau, fel arwyddion ffyrdd, yn debygol o aros fel y maen nhw.

Gyda rheolaeth lawn dros bolisi trafnidiaeth, gallai Cymru gyflwyno mesurau ychwanegol i wella diogelwch ar y ffyrdd, megis trwyddedau gyrru amodol i yrwyr sydd newydd gymhwyso. Gallai hefyd ddatblygu dewisiadau eraill yn y tymor hir i gymryd lle trethi ceir a thollau tanwydd, megis talu wrth ddefnyddio ffyrdd neu daliadau tagfeydd.

Byddai annibyniaeth yn rhoi reolaeth lawn i Gymru dros fuddsoddi mewn trafnidiaeth.

Byddai hynny'n caniatáu i Gymru ehangu gwaith trydanu rheilffyrdd, cyflymu'r trawsnewid i gludiant gwyrddach, a blaenoriaethu gwariant ar

[54] Government of Wales Act 2006, Schedule 7A, Sections E1-E6.

seilwaith ar sail anghenion Cymru yn hytrach na'r hyn y mae Trysorlys y Deyrnas Gyfunol yn ei ystyried yn "werth am arian". Byddai Llywodraeth Cymru â rheolaeth lawn yn gallu datblygu rhwydweithiau metro rhanbarthol, gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd a rhwng ardaloedd gwledig a threfol, a sicrhau cysylltiadau newydd ar y môr a thrwy hedfan, yn arbennig ar gyfer nwyddau.

**A fyddwn i'n dal yn gallu Derbyn yr un Rhaglenni Teledu a Radio?**

Mae'r BBC yn gorfforaeth Brydeinig, sy'n cael ei chyllido gan ffi'r drwydded, a gesglir gan Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Bwrdd unedol y BBC yn Llundain sy'n penderfynu sut caiff yr arian hwn ei wario, gydag un yn unig o blith ei 14 o gyfarwyddwr yn cynrychioli Cymru.

Mae dwy senario debygol ar ôl annibyniaeth. Y cyntaf yw y gallai'r BBC barhau i weithredu ar draws y Deyrnas Gyfunol, gyda BBC Cymru Wales yn dod yn endid cyfreithiol ar wahân. Byddai'n dal

i ddarlledu rhaglenni'r BBC a rennir ynghyd â BBC Lloegr, BBC yr Alban a BBC Gogledd Iwerddon. Yn yr achos hwn, byddai Cymru yn gosod ei ffi trwydded ei hun i helpu i ariannu'r BBC ac S4C.

Yr ail senario ydy creu darlledwr cyhoeddus annibynnol i Gymru heb ei glymu'n ffurfiol â'r BBC o gwbl. Byddai'r darlledwr hwn yn gwneud ei benderfyniadau ei hun ynglŷn â beth i'w gynhyrchu yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac yn cael ei reoleiddio gan y Senedd. Gellid ei ariannu drwy ffi trwydded, cymysgedd o ffi trwydded a hysbysebu, neu ariannu cyhoeddus uniongyrchol.

Byddai gwasanaethau teledu a radio masnachol yn debygol o barhau fel arfer. Mae Sky a Virgin Media ill dau ar gael yn Iwerddon. Yn ogystal, byddai cyfle i ddatblygu mwy o gyfryngau wedi'u seilio yn y gymuned a chyfryngau nid-er-elw er mwyn gwella sylw'r cyfryngau i Gymru - rhywbeth sy'n cael ei gydnabod yn wendid ar hyn o bryd.

Ni fyddai effaith ar wasanaethau ffrydio fel Netflix, Amazon Prime, a YouTube. Nid yw'r cyfryngau cyfoes wedi'u cyfyngu gan ffiniau gwlad erbyn hyn, yn wahanol i'r gorffennol, pan roedd pobl ond yn gallu gwylio sianeli o'u gwledydd eu hunain.

## Beth fydd y digwydd i Dimau Chwaraeon Cymru?

Mae Cymru eisoes yn annibynnol mewn nifer o chwaraeon, gan gynnwys rygbi a phêl-droed, ac mae ganddi draddodiad cryf ym maes chwaraeon. Byddai annibyniaeth yn gwarantu timau Olympaidd a Pharalympaidd i Gymru, gan roi'r cyfle i'r athletwyr sy'n cystadlu ar ran Team GB ar hyn o bryd i gynrychioli Cymru. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ragor o athletwyr Cymru gystadlu ar y lefel uchaf ac yn dod â chydnabyddiaeth ryngwladol i Gymru.

Yng Ngemau Olympaidd yr Haf yn Ffrainc yn 2024, bu 33 o athletwyr o Gymru yn cystadlu dan faner Team GB.[55] Fodd bynnag, roedd gan

[55] Sport Wales, "Welsh Olympic Athletes at Paris 2024".

Iwerddon annibynnol dros 150 o athletwyr yn cynrychioli eu gwlad, gan ennill cydnabyddiaeth ryngwladol a rhoi hwb i dwristiaeth a balchder cenedlaethol.

Mae criced yn un o blith ychydig o'r prif chwaraeon lle nad yw Cymru yn cystadlu ar wahân. Er syndod, mae sefydliadau criced Cymreig, gan gynnwys Criced Cymru a Chlwb Criced Morgannwg, yn gwrthwynebu ffurfio tîm cenedlaethol.[56] Mae hyn wedi atal cricedwyr o Gymru rhag chwarae criced rhyngwladol ers degawdau, er bod gwledydd fel Seland Newydd, sydd â phoblogaeth debyg, yn ffynnu yn y gamp. Roedd gan Gymru ei thîm criced ei hun yn y 1920au a'r 1930au ac roedden nhw'n,[57] ac roedden hnw'n chwarae yn erbyn timau fel India'r Gorllewin a De Affrica. Petai Cymru yn cystadlu mewn twrnameintiau undydd a T20, byddai'n cael sylw aruthrol mewn gwledydd fel India a

[56] BBC Wales (12th December 2011). "Glamorgan oppose petition to form a Wales cricket team".
[57] Welsh Museum of Cricket (website), "Wales during the 1920s and 1930s".

Phacistan, yn hytrach na chael un chwaraewr bach o bob cenhedlaeth yn cynrychioli Lloegr.

Gan fod Cymru eisoes yn chwarae pêl-droed yn annibynnol, does dim rheswm pam na allai clybiau fel Dinas Abertawe, Dinas Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd, a Merthyr barhau i chwarae yng nghynghreiriau Lloegr ar ôl annibyniaeth petaen nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn gyffredin ym myd pêl-droed – er enghraifft, mae TNS, sef pencampwyr y Cymru Premier, yn chwarae eu gemau cartref yng Ngroesoswallt yn Lloegr. Yn yr un modd, mae Berwick Rangers yn chwarae yng nghynghreiriau'r Alban, mae Derry City o Ogledd Iwerddon yn chwarae yng Nghynghrair Iwerddon, ac mae FC Andorra yn cystadlu yn system cynghreiriau Sbaen. Byddai gan dimau Cymreig sy'n chwarae yn Lloegr ar hyn o bryd y dewis i ymuno â system gynghreiriau Cymru yn wirfoddol, yn hytrach na chael eu gorfodi i wneud hynny.

# Y Llwybr tuag at Annibyniaeth

**Ethol Llywodraeth Cymru sydd o Blaid Annibyniaeth**

Dim ond os bydd pobl Cymru yn dewis hynny y gall Cymru fod yn annibynnol. Byddai angen i fwyafrif pleidleiswyr Cymru gefnogi annibyniaeth mewn refferendwm sy'n cael ei gydnabod gan lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol.

Y cam cyntaf yw ethol Llywodraeth Cymru sydd o blaid annibyniaeth. Gallai hyn fod yn un blaid â mwyafrif neu'n glymblaid sy'n cefnogi annibyniaeth. I wneud i hyn ddigwydd, mae'n bwysig argyhoeddi pleidiau gwleidyddol bod annibyniaeth yn opsiwn realistig a manteisiol.

Yn 2025, dim ond un blaid yn y Senedd sy'n cefnogi annibyniaeth. Fodd bynnag, gallai hynny newid. Mae annibyniaeth yn cynnig cyfle i greu democratiaeth fwy effeithlon ac atebol, ac mae'n gysyniad y gallai gwleidyddion o wahanol bleidiau

ei gefnogi. Mae cefnogwyr YesCymru yn dod o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, sy'n golygu bod gan ein haelodau gyfle i ddylanwadu ar bolisïau'r gwahanol bleidiau.

**Refferendwm Annibyniaeth**

Ar hyn o bryd, nid oes gan Gymru y grym i alw refferendwm ar annibyniaeth ei hun. Byddai angen i senedd y Deyrnas Gyfunol gymeradwyo a phasio deddf yn caniatáu'r refferendwm, a byddai angen i Senedd Cymru basio ei deddfwriaeth ei hun hefyd.

Petai'r ddwy lywodraeth yn cytuno, byddai bil refferendwm yn cael ei gyflwyno yn San Steffan. Byddai'r Comisiwn Etholiadol yn goruchwylio'r broses, gan gynnwys geiriad y cwestiwn, rheolau ymgyrchu, a phwy sy'n cael pleidleisio. Byddai pobl Cymru yn penderfynu wedyn i naill ai aros yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol neu i fod yn wlad annibynnol.

Nid yw pob gwlad wedi cynnal refferendwm cyn ennill annibyniaeth. Gadawodd Estonia, Latfia a Lithwania yr Undeb Sofietaidd drwy ddatganiadau

seneddol. Gallai Cymru ddilyn llwybr tebyg dan gyfraith ryngwladol, naill ai drwy ddatganiad annibyniaeth unochrog (UDI) gan y Senedd neu drwy drafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Dyma sut y bu i'r Weriniaeth Tsiec a Slofacia wahanu yn 1993 yn yr 'Ysgariad Melfed'.

Fodd bynnag, oni bai bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn cydsynio i annibyniaeth Cymru, gellid ystyried cam o'r fath yn un anghyfansoddiadol. Gallai hynny ei gwneud yn anoddach ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ac ymuno â sefydliadau fel y Cenhedloedd Unedig.

**Trafodaethau a Thrawsnewid**

Petai Cymru yn pleidleisio dros annibyniaeth, ni fyddai'n digwydd dros nos. Byddai yna gyfnod trosiannol. Cyn refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, roedd Llywodraeth yr Alban yn rhagweld y byddai'r cyfnod hwnnw'n parhau hyd at 18 mis.[58]

---

[58] Scottish Government (26th November 2013). "Scotland's Future", Chapter 10, p337-339.

Mae Brexit yn enghraifft arall. Ar ôl refferendwm 2016, fe gymerodd dair blynedd a hanner i'r Deyrnas Gyfunol adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod y cyfnod trosiannol, byddai trafodaethau'n ymdrin â'r materion allweddol a drafodwyd eisoes yn y llyfryn hwn, megis arian cyfred, trefniadau gweithio a byw trawsffiniol, rhannu asedau'r wladwriaeth, a chyfran Cymru o ddyled genedlaethol y Deyrnas Gyfunol.

**Diwrnod Annibyniaeth**

Unwaith y byddai cytundeb, byddai'n debygol o gael ei ffurfioli mewn cytundeb rhyngwladol neu ddogfen arall fyddai'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol.

Dan system cyfraith gyffredin, byddai cyfreithiau oedd yn eu lle cyn annibyniaeth yn parhau'n ddilys oni bai bod Llywodraeth newydd Cymru yn penderfynu eu newid.

Byddai etholiad newydd i'r Senedd yn cael ei gynnal wedyn, gyda llywodraeth newydd yn cael ei dewis dan fframwaith cyfansoddiad newydd. Byddai Cymru o'r diwedd yn cymryd ei lle ymhlith cenhedloedd annibynnol y byd.

# Cyfansoddiad i Gymru

**Ffurfio Democratiaeth Gadarn**

Yn 1997, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid datganoli, gan arwain at greu Cynulliad Cymru (sydd bellach yn Senedd Cymru) yn 1999. Yn 2011, rhoddodd refferendwm arall ragor o bwerau deddfu i'r Senedd.

Fodd bynnag, nid yw datganoli yn barhaol. Senedd y Deyrnas Gyfunol a greodd Senedd Cymru a gallai, mewn theori, gipio ei phwerau oddi arni. Er y byddai angen refferendwm i ddod â datganoli i ben yn ffurfiol,[59] mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol eisoes wedi gwanhau pwerau Cymru, er enghraifft drwy'r Ddeddf Marchnad Fewnol ar ôl Brexit.

Mae'r Deyrnas Gyfunol yn un o blith nifer fach o wledydd y byd sydd heb gyfansoddiad ysgrifenedig. Yn hytrach, mae ei system

---

[59] Wales Act 2017, Part 1, Section 1.

wleidyddol yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed ganrifoedd yn ôl, yn bennaf gan osodwyr cyfraith o Loegr. Mewn gwrthgyferbyniad, mae cenhedloedd annibynnol yn drafftio eu cyfansoddiad eu hunain er mwyn diffinio'r ffordd y cânt eu llywodraethu ac i ddiogelu hawliau dinasyddion.

Byddai cyfansoddiad i Gymru yn diogelu democratiaeth Cymru yn barhaol, gan sicrhau bod penderfyniadau am Gymru yn cael eu gwneud yng Nghymru. Byddai hefyd yn gwarantu hawliau sylfaenol megis rhyddid mynegiant, preifatrwydd, a'r hawl i ymgynnull, ac yn diogelu pobl rhag gweithredu gorymestyn ar ran y llywodraeth.

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Byddai cyfansoddiad i Gymru yn gyfle i sicrhau tegwch i bawb. Mae llawer o grwpiau – yn cynnwys menywod, pobl anabl, unigolion LGBTQ+, a phobl liw – wedi gwneud cyfraniadau hollbwysig i Gymru ond yn aml, maen nhw wedi cael eu hesgeuluso. Mae annibyniaeth yn rhoi cyfle i gydnabod anghyfiawnderau'r gorffennol ac ymrwymo i ddyfodol tecach.

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn un maes y byddai angen ei ddiwygio. Mae cyfradd carcharu Cymru ymhlith y rhai uchaf yng Ngorllewin Ewrop, ac mae pobl liw yn cael eu heffeithio i raddau anghymesur.[60] Byddai cyfansoddiad i Gymru yn gallu sicrhau ymdriniaeth deg gan heddluoedd ac mewn ymchwiliadau troseddol, gan fynd i'r afael â chamwahaniaethu a chamddefnyddio pwerau.

**Hawliau Sylfaenol**

Byddai annibyniaeth yn caniatáu i Gymru osod ei seiliau cyfreithiol ei hun. Mae gan lawer o wledydd gyfansoddiad modern sy'n gwneud mwy na diogelu elfennau o ryddid sylfaenol ac sy'n cynnwys hawliau sy'n gwella safonau byw. Gallai cyfansoddiad i Gymru ymgorffori:

- Yr hawl i ofal iechyd ac addysg yn ddi-dâl.

---

[60] Dr Robert Jones, Cardiff University (October 2024). "Prisons & Sentencing in Wales". Quote: "The 'in-country' imprisonment rate in Wales continues to far exceed the level recorded in any other country in western Europe."

- Yr hawl i gartref gweddus, gan ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau'r dyfodol weithio tuag at roi terfyn ar ddigartrefedd.
- Diogelu'r Gymraeg mewn modd tebyg i'r darpariaethau iaith yng nghyfansoddiad y Ffindir,[61] gan sicrhau bod dyletswydd gyfreithiol ar bob llywodraeth i hyrwyddo a diogelu'r iaith.

**Drafftio Cyfansoddiad i Gymru**

Petai Cymru yn pleidleisio dros annibyniaeth, byddai'r broses o lunio cyfansoddiad yn dechrau yn ystod y cyfnod trosiannol tra byddai llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol yn trafod telerau annibyniaeth.

Mae gwahanol ffyrdd posib o ddrafftio cyfansoddiad. Gallai Cymru sefydlu confensiwn cyfansoddiadol a fyddai'n cynnwys ymhlith ei aelodau arbenigwyr, grwpiau dinesig, ac aelodau o'r cyhoedd. Dull arall fyddai proses "cyfrannu

[61] Constitution of Finland (1999), Chapter 2, Article 17 - "Right to one's language and culture".

torfol", fel yr hyn a welwyd yng Ngwlad yr Iâ yn 2011.[62] Dewis arall fyddai gadael i'r Senedd ymgymryd â'r dasg.

Pan fydd cyfansoddiad wedi'i lunio, mae'n dueddol o fod yn anodd ei newid. Mae angen refferendwm mewn rhai gwledydd er mwyn diwygio'r cyfansoddiad, neu mewn gwledydd eraill, mae'n rhaid cael uwchfwyafrif mewn pleidlais yn y senedd (dau draean o'r aelodau fel arfer). Byddai angen i Gymru benderfynu ar ei rheolau ei hun ar gyfer gwneud newidiadau i'w chyfansoddiad newydd.

**Sylfaen Barhaol i Ddemocratiaeth Cymru**

Byddai cyfansoddiad ysgrifenedig yn diogelu democratiaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddai'n gosod cyfraith Cymru ar sylfaen gadarn, annibynnol ac yn sicrhau mai pobl Cymru yn unig fydd â'r gallu i benderfynu ar newidiadau i'w hawliau a'u llywodraeth.

---

[62] Popescu, D. & Loveland, M., (2022) "Judging Deliberation: An Assessment of the Crowdsourced Icelandic Constitutional Project", *Journal of Deliberative Democracy* 18(1).

# Sut gallaf wneud i Annibyniaeth Ddigwydd?

Nod *YesCymru* yw sicrhau annibyniaeth i Gymru er mwyn gwella'r ffordd y caiff ein gwlad ei llywodraethu. Rydyn ni'n credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol, sy'n croesawu ac yn dathlu pawb sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref – beth bynnag fo'u cefndir – yn ddinasyddion llawn mewn Cymru newydd. Os ydych chi'n cefnogi'r nod hwn, dyma sut gallwch chi helpu:

- **Rhannwch y llyfryn hwn** â phobl eraill. Mae copi PDF rhad ac am ddim ar gael ar-lein yn cy.yes.cymru/annibyniaeth

- **Ymunwch â YesCymru!** Gallwch ymaelodi'n rhwydd ar-lein yn cy.yes.cymru/ymaelodi

- **Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol** a rhannwch ein cynnwys (dolenni isod).

- **Ymunwch â gweithgaredd lleol** drwy ymuno ag un o'r nifer cynyddol o grwpiau YesCymru. Os nad oes un yn eich ardal chi, beth am ddechrau un? cy.yes.cymru/grwpiau.

- **Lledwch y gair** drwy rannu taflenni yn eich cymuned, trefnu stondinau stryd a threfnu cyfarfodydd cyhoeddus. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

- **Cysylltwch â'ch cynrychiolwyr etholedig**, ac os ydych yn aelod o blaid wleidyddol, cofiwch eu lobïo ynglŷn â hyn.

- **Yn bwysicaf oll, siaradwch am annibyniaeth** gyda'ch ffrindiau, eich teulu a chydweithwyr. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

# Cysylltwch

**E-bost:** post@yes.cymru
**Y post:** YesCymru, Swyddfa 23609,
Blwch Post 92, Caerdydd, CF11 1NB
**Twitter/X:** x.com/YesCymru
**Bluesky:** bsky.app/profile/yes.cymru
**Facebook:** facebook.com/YesCymru
**Instagram:** instagram.com/yescymru
**Youtube:** youtube.com/YesCymru
**TikTok:** tiktok.com/@yescymru
**LinkedIn:** linkedin.com/company/yescymru